Cynnwys

1 Cyflwyniad i'r ymgynghoriad 1
- Trosolwg o'r ymgynghoriad 1
- Ynglŷn â'r Comisiwn Etholiadol 1
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 2
- Cynnwys y papur ymgynghori hwn 2
- Pwy ddylai ymateb i'r ymgynghoriad 3
- Sut i ymateb i'r ymgynghoriad 3
- Camau nesaf 4

2 Crynodeb gweithredol o'r polisi gorfodi 5
- Pam rydym yn rheoleiddio 5
- Sut yr awn ati i reoleiddio 5
- Rhoi cyngor ac asesu risg 6
- Gwaith achos gorfodi 6
- Sancsiynau 7
- Gwybodaeth i'r cyhoedd am ein gwaith gorfodi a gosod sancsiynau 8

3 Egwyddorion ein gwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg 10
- Gwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg a gwaith y Comisiwn Etholiadol 10

4 Egwyddorion ein polisi gorfodi a gosod sancsiynau 16
- Trosolwg 16
- Amcanion ein gwaith gorfodi 16
- Ein pwerau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth 17
- Sut a pham y defnyddiwn ein pwerau goruchwylio 17
- Sut a pham yr adolygwn ac yr ymchwiliwn i achosion posibl o dorri'r gyfraith 18
- Sut y penderfynwn pryd i adolygu neu ymchwilio i achos 18
- Ceisio gwybodaeth fel rhan o ymchwiliad 21
- Sut y defnyddiwn bwerau ymchwilio 21
- Pennu'r camau gweithredu mwyaf priodol 23
- Y sancsiynau sydd ar gael i ni 26
- Sut y defnyddiwn sancsiynau i sicrhau cydymffurfiaeth 29
- Sut y bydd sancsiynau yn gymwys 30
- Y broses o osod sancsiynau 38
- Sut i wneud cynrychioliadau ac apeliadau yn erbyn sancsiynau 39
- Gwybodaeth i'r cyhoedd am ein gwaith gorfodi a gosod sancsiynau 40

5 Rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y papur hwn 42

Atodiadau

Atodiad A – Meini prawf ar gyfer proffilio risg ac effaith 45

Atodiad B – Cosbau ariannol penodedig 48

Atodiad C - Gofynion dewisol 52

Atodiad Ch - Hysbysiadau atal 64

Atodiad D - Ymgymeriadau gorfodi 67

Atodiad Dd - Polisi cyhoeddi a datgelu 70

1 Cyflwyniad i'r ymgynghoriad

Trosolwg o'r ymgynghoriad

1.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol, rheoleiddiwr cyllid pleidiau gwleidyddol ac etholiadau'r DU, yn gwahodd sylwadau ar ei bolisi gorfodi ar gyfer y dyfodol. Caiff yr ymgynghoriad ei gynnal tan 1 Tachwedd 2009. Rydym yn ymgynghori nawr am ddau reswm:

1. Am y tro cyntaf, rydym yn bwriadu cyhoeddi datganiad cynhwysfawr am ein polisi gorfodi - beth yw ein hamcanion o ran gorfodi'r gyfraith, a sut yr awn ati i gyflawni'r amcanion hynny. Rydym yn gwahodd pawb sydd â buddiant i roi sylwadau ar ein cynigion cyn i ni gyhoeddi ein polisi gorfodi terfynol.
2. Disgwyliwn gael pwerau rheoleiddio a sancsiynau newydd yn ystod y flwyddyn i ddod, o ganlyniad i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf 2009). Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi canllawiau ar y ffordd y byddwn yn defnyddio'r pwerau a'r sancsiynau newydd hyn, ac ymgynghori ar y canllawiau hynny. Byddwn yn rhoi adroddiad ar ganlyniad yr ymgynghoriad i'r Llywodraeth cyn iddi benderfynu ar y sancsiynau newydd yn derfynol mewn is-ddeddfwriaeth.

1.2 Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r fersiwn terfynol o'n polisi gorfodi, a gyhoeddir gennym cyn i ni ddechrau defnyddio'r sancsiynau newydd.

Ynglŷn â'r Comisiwn Etholiadol

1.3 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn rheoleiddiwr annibynnol, a sefydlwyd gan Senedd y DU. Un o'n hamcanion yw sicrhau bod cyllid pleidiau ac etholiadau yn gywir ac yn dryloyw. Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000), fel y'i diwygiwyd, yn rheoli rhoddion a benthyciadau i bleidiau gwleidyddol a rhai endidau eraill a reoleiddir, a'u gwariant. Ymhlith yr endidau a reoleiddir mae sefydliadau 'trydydd parti' sy'n ymgyrchu, cyrff sy'n cymryd rhan mewn refferenda, a 'derbynwyr rheoledig' (sy'n cynnwys aelodau pleidiau gwleidyddol, deiliaid swyddi etholedig, a chymdeithasau aelodau pleidiau). Mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau bod yr unigolion a'r sefydliadau hyn yn cydymffurfio â gofynion Deddf 2000.

1.4 Er budd democratiaeth, mae'n hanfodol bod pleidiau gwleidyddol a sefydliadau ymgyrchu eraill yn gallu datblygu polisïau, ymgyrchu, a chyfleu eu negeseuon i bleidleiswyr. Er mwyn gallu gwneud hyn, mae angen iddynt godi arian i ariannu eu gweithgareddau. Fel rheoleiddiwr cyllid pleidiau ac etholiadau, mae'r Comisiwn yn gyfrifol am sicrhau tryloywder drwy ennyn a chynnal hyder yr ufuddheir i'r gyfraith o ran rhoddion, benthyciadau, a gwariant.

1.5 Gan fod pleidiau gwleidyddol yn dibynnu'n helaeth ar gyfraniad gwirfoddolwyr, mae'n hynod bwysig ein bod yn dilyn egwyddorion rheoleiddio da drwy weithredu mewn modd cymesur. Mae'r rhan fwyaf o'r sefydliadau

rydym yn eu rheoleiddio yn cydymffurfio â'r rheolau, ac rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y rhai a reoleiddir gennym yn deall eu rhwymedigaethau rheoliadol.

Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009

1.6 Cyflwynodd Deddf 2000 ystod eang o ofynion rheoliadol newydd, gyda diffyg cydymffurfio yn cael ei ystyried yn drosedd yn y rhan fwyaf o achosion. Mae profiad y Comisiwn o weithredu'r gyfundrefn reoleiddio wedi dangos y gall yn aml fod yn amhriodol cyfeirio achosion o fynd yn groes i Ddeddf 2000 i'r heddlu er mwyn cynnal ymchwiliad troseddol iddynt. O ganlyniad, bu'n anodd i'r Comisiwn orfodi'r gyfraith yn effeithiol, yn gymesur, ac yn unol ag egwyddorion gwaith rheoleiddio da. Nodwyd hyn mewn sawl adroddiad gan y Comisiwn ac eraill, yn enwedig y Comisiwn ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus.

1.7 Bydd y newidiadau i bwerau a sancsiynau'r Comisiwn a gyflwynwyd gan Ddeddf 2009 yn mynd i'r afael â'r broblem hon. Rhydd y pwerau ymchwilio newydd fwy o gwmpas i'r Comisiwn ymchwilio i fethiannau i gydymffurfio â fframwaith rheoliadol Deddf 2000. Mae'r amrywiaeth newydd o sancsiynau sifil hyblyg a chymesur yn cynnig dewisiadau amgen i gyfeirio unigolyn neu sefydliad am erlyniad troseddol o dan Ddeddf 2000, gan ein galluogi i gymhwyso sancsiynau sy'n briodol i natur pob achos o fynd yn groes iddi. Byddwn hefyd yn gallu defnyddio dulliau newydd ac adeiladol o sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith lle y bo'n briodol, yn hytrach na rhoi cosb draddodiadol fel dirwy, neu gyfeirio achos am ymchwiliad troseddol. Er enghraifft, gallem gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i gorff nad yw'n cydymffurfio gymryd camau penodol er mwyn cydymffurfio, fel diwygio systemau neu hyfforddi swyddogion pleidiau ar sut y dylent gyflawni eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

1.8 Ym mis Ionawr 2009, wrth i'r Mesur Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau fynd ar ei hynt drwy'r Senedd, gwnaethom gyhoeddi canllawiau dangosol ar ein polisi gorfodi cyfredol a'n dull arfaethedig o ymdrin â'r pwerau a'r sancsiynau yn y Mesur. Mae'r polisi gorfodi drafft rydym yn ymgynghori arno ar hyn o bryd yn seiliedig ar y canllawiau dangosol hynny. Rydym wedi ei ddiwygio a'i ehangu fel ei fod yn pennu ein dull arfaethedig o fynd i'r afael â phob un o ddarpariaethau newydd manwl Deddf 2009. Lle rydym wedi diwygio ein gweithdrefnau ers mis Ionawr, rydym wedi diweddaru'r papur hwn i adlewyrchu'r newidiadau. Bydd ein hargymhellion i'r Llywodraeth ar gynnwys yr is-ddeddfwriaeth a fydd yn angenrheidiol i gymhwyso'r sancsiynau sifil newydd i droseddau penodol ac achosion penodol o fynd yn groes i Ddeddf 2000 yn seiliedig ar y polisi gorfodi drafft hwn, gan ystyried yr ymatebion a geir i'r ymgynghoriad hwn. Ceir gwybodaeth am sut i ymateb i'r ymgynghoriad isod ym mharagraff 1.13 o'r ddogfen hon.

Cynnwys y papur ymgynghori hwn

1.9 Mae'r papur ymgynghori yn dechrau gyda dwy bennod sy'n egluro'r egwyddorion sy'n llywio dull arfaethedig y Comisiwn o reoleiddio. Mae Pennod

3 yn disgrifio ein dull o reoleiddio ar sail risg, gan gynnwys y defnydd o asesiad risg. Mae Pennod 4 yn nodi ein dull o oruchwylio, cynnal ymchwiliadau a phennu sancsiynau, yn seiliedig ar y darpariaethau newydd yn Neddf 2009. Ceir rhestr termau ym mhennod 5. Croesawn unrhyw sylwadau ar y dull o weithredu a nodir yn y polisi gorfodi hwn, ac rydym wedi tynnu sylw at gwestiynau penodol yr hoffem glywed eich barn amdanynt yn arbennig. Mae'r cwestiynau hyn wedi'u dwyn ynghyd yn ein ffurflen ymateb ar gyfer yr ymgynghoriad[1] sydd ar gael ar ein gwefan. Mae'r atodiadau i'r papur ymgynghori yn egluro'n fanylach sut y caiff yr egwyddorion a nodir ym mhenodau cynharach y polisi gorfodi eu rhoi ar waith - er enghraifft, y fethodoleg o ran asesu risg a'r prosesau ar gyfer gosod sancsiynau ac apelio yn eu herbyn.

Pwy ddylai ymateb i'r ymgynghoriad?

1.10 Croesawn ymatebion gan bawb sydd â diddordeb yn y broses o reoleiddio cyllid pleidiau ac etholiadau. Mae'r ymgynghoriad yn debygol o fod o ddiddordeb arbennig i'r rhai rydym yn eu rheoleiddio - pleidiau gwleidyddol cofrestredig, eu haelodau a'u swyddogion, ac endidau eraill a reoleiddir fel sefydliadau trydydd parti sy'n ymgyrchu a'r rhai sy'n cymryd rhan mewn ymgyrchoedd refferendwm.

1.11 Hoffem glywed yn arbennig gan y bobl hynny sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol fel swyddogion pleidiau, fel gwirfoddolwyr sy'n cyflawni rôl trysorydd cofrestredig cangen etholaethol plaid fawr. Mae croeso i swyddogion pleidiau ymateb yn uniongyrchol i'r ymgynghoriad, a gall hefyd fod yn ddefnyddiol iddynt ei drafod â'u cydweithwyr, fel staff pencadlys y blaid sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gyfraith. Hoffem wahodd y pleidiau hynny sydd ag unedau cyfrifyddu i'n helpu i egluro ein cynigion i swyddogion pleidiau.

Sut i ymateb i'r ymgynghoriad hwn

1.12 Hoffem yn arbennig gael ymatebion i'r cwestiynau penodol sydd mewn print bras drwy'r papur gorfodi ac sydd wedi'u dwyn ynghyd yn ein ffurflen ymateb ar gyfer yr ymgynghoriad sydd ar gael ar ein gwefan.

1.13 Bydd yr ymgynghoriad yn para 15 wythnos o'r dyddiad lansio sef 21 Gorffennaf 2009, ac felly bydd yn gorffen ar 1 Tachwedd 2009. Dylid ymateb erbyn y dyddiad hwn. Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn mewn dwy ffordd:

- teipio eich ymatebion yn y ffurflen ymateb ar gyfer yr ymgynghoriad, arbed y ffurflen a'i hanfon at pef@electoralcommission.g.uk
- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb a'i hanfon yn y post neu dros y ffacs i:

The Electoral Commission
Attention: Party and Election Finance Directorate
Trevelyan House

[1] Mae'r ffurflen ar gael yn www.electoralcommission.org.uk/_media/consultation-paper/the-electoral-commission/2010/Better-regulation-of-party-and-election-finance-response-form.pdf

Great Peter Street
London
SW1P 2HW
Ffacs: 020 7271 0505

- anfon llythyr neu e-bost i'r cyfeiriad uchod

1.14 Os hoffech drafod agweddau ar y polisi gorfodi drafft rydym yn ymgynghori arno, anfonwch e-bost atom yn pef@electoralcommission.org.uk

1.15 Wrth ymateb, nodwch a ydych yn ymateb fel unigolyn neu'n cynrychioli barn sefydliad yn ffurfiol. Os mai cynrychioli barn sefydliad yn ffurfiol rydych yn ei wneud, nodwch yn glir pwy yw'r sefydliad, pwy mae'n ei gynrychioli a (lle y bo'n gymwys) sut y cafodd barn ei aelodau ei chasglu.

1.16 Efallai y caiff yr ymatebion a geir eu cyhoeddi ar wefan y Comisiwn. Os hoffech i'ch ymateb aros yn gyfrinachol (yn llawn neu'n rhannol) nodwch hyn yn glir yn eich ymateb.

Camau nesaf

1.17 Byddwn yn ystyried yr ymatebion yn ofalus cyn llunio'r fersiwn terfynol o'r polisi gorfodi. Byddwn hefyd yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion, a'n hymateb iddynt, ar ein gwefan.

1.18 Ar ôl ystyried yr ymatebion ac unrhyw ddiwygiadau dilynol i'r polisi gorfodi, byddwn yn rhoi cyngor i'r Llywodraeth ar y materion y mae angen iddynt gael eu rhagnodi gan is-ddeddfwriaeth - ymhlith y rhain mae lefel y cosbau ariannol penodedig, y meini prawf ar gyfer pennu lefel y cosbau ariannol amrywiadwy a chosbau diffyg cydymffurfio, a'r troseddau a'r achosion o fynd yn groes i Ddeddfau y bydd sancsiynau ynghlwm wrthynt.

1.19 Unwaith y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi cyflwyno'r is-ddeddfwriaeth hon i'r Senedd i'w hystyried, byddwn yn cyhoeddi'r fersiwn terfynol o'n polisi gorfodi ar ein gwefan er mwyn rhoi digon o rybudd i'r rhai rydym yn eu rheoleiddio cyn i'r trefniadau newydd ddod i rym. Ymdrinnir ag unrhyw achosion o dorri'r ddeddfwriaeth sy'n digwydd ar ôl i'r is-ddeddfwriaeth ddod i rym yn unol â'r polisi newydd. Ymdrinnir â'r materion hynny sy'n dod i'n sylw ar ôl iddi ddod i rym, ond lle y cyflawnwyd y gweithgarwch cyn iddi ddod i rym, gan ddefnyddio'r pwerau a'r sancsiynau a oedd ar gael i ni ar yr adeg yr aethpwyd yn groes i'r ddeddfwriaeth.

2 Crynodeb gweithredol o'r polisi gorfodi

Mae'r crynodeb gweithredol hwn yn egluro'r egwyddorion sy'n sail i'n polisi gorfodi arfaethedig a'r ffordd rydym yn disgwyl defnyddio'r pwerau a'r sancsiynau newydd a ddarperir gan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf 2009). Mae'r papur llawn ar y polisi gorfodi yn nodi'r rhain yn llawn a hefyd yn tynnu sylw at rai cwestiynau allweddol. Rhydd yr atodiadau i'r papur ar y polisi gorfodi fanylion arfaethedig y pwerau a'r sancsiynau newydd.

Pam rydym yn rheoleiddio

2.1 Mae pleidiau gwleidyddol gweithredol yn elfen hanfodol o wleidyddiaeth ddemocrataidd. Maent yn cyflwyno sylwadau a pholisïau croes y gall pleidleiswyr ddewis ohonynt yn heddychlon mewn etholiadau. Mae angen i bleidiau gael arian i ymgyrchu a datblygu eu polisïau, ac i gyfathrebu â phleidleiswyr, ac mae'n bwysig bod y cyhoedd yn gwybod o ble y daw'r arian hwnnw, a'i fod yn hyderus y daw o ffynonellau derbyniol. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gyfrifol am sicrhau bod cyllid pleidiau ac etholiadau yn gywir ac yn dryloyw. O dan ddeddfwriaeth a gyflwynwyd yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000), mae'n rhaid i bleidiau gwleidyddol a rhai endidau eraill a reoleiddir:

- roi gwybod i ni am y rhoddion a'r benthyciadau a gânt ac anfon eu cyfrifon atom, fel y gallwn gyhoeddi'r wybodaeth honno
- sicrhau mai dim ond gan ffynonellau 'a ganiateir' sy'n gysylltiedig â'r DU, fel unigolion ar y gofrestr etholiadol, y derbynnir rhoddion a benthyciadau
- peidio â gwario mwy na'r terfyn mewn ymgyrchoedd etholiadol, a rhoi gwybod i ni ar beth y gwnaethant wario

2.2 Diben ein rôl reoleiddio yw sicrhau bod y sefydliadau a'r unigolion rydym yn eu rheoleiddio yn dilyn y rheolau hyn. Bydd ein polisi gorfodi cyhoeddedig yn nodi sut yr awn ati i gyflawni'r rôl hon.

Sut yr awn ati i reoleiddio

2.3 Rydym yn anelu at reoleiddio mewn ffordd sy'n effeithiol, yn gymesur ac yn deg, yn unol ag egwyddorion gwaith rheoleiddio da. Amcanion ein gwaith rheoleiddio yw:

- sicrhau'r tryloywder a ddisgwylir gan bleidleiswyr
- dileu unrhyw fudd y gallai'r rhai rydym yn eu rheoleiddio ei gael drwy beidio â chydymffurfio â'r gyfraith
- sicrhau bod y rhai nad ydynt yn cydymffurfio yn cydymffurfio
- atal diffyg cydymffurfio

2.4 Gwirfoddolwyr yw llawer o'r unigolion sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r gyfraith yn lleol. Felly, mae'n hynod bwysig ein bod yn cyflawni'r amcanion

hyn mewn ffordd gymesur, gan ystyried y ffeithiau ymhob achos a dim ond gweithredu pan fo angen er mwyn cyflawni ein hamcanion.

2.5 Elfennau allweddol ein gwaith rheoleiddio yw rhoi cyngor ac asesu risg, ynghyd â gwaith achos gorfodi sy'n cynnwys sancsiynau. Rhydd y crynodeb gweithredol hwn drosolwg byr o'n dull o gyflawni'r holl dasgau hyn, ac mae'n croesgyfeirio at y drafodaeth fanylach a geir yn yr adrannau perthnasol o'r papur ymgynghori.

Rhoi cyngor ac asesu risg

2.6 Lle bynnag y bo'n bosibl, anelwn at sicrhau cydymffurfiaeth drwy helpu'r rhai rydym yn eu rheoleiddio i ddeall y gyfraith a gwneud pethau'n iawn, yn hytrach na chymryd camau gorfodi ar ôl i bethau fynd o le. Mae ein tîm cynghori ac arwain bob amser yn barod i roi cyngor anffurfiol a gall hefyd arddel barn ysgrifenedig ffurfiol am faterion anodd os oes angen. Ar hyn o bryd rydym wrthi'n adolygu ein canllawiau ar reoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y rhai rydym yn eu rheoleiddio.

2.7 Yn y dyfodol byddwn yn defnyddio adnoddau asesu risg ffurfiol i'n helpu i ddeall pryd y gall fod yn briodol i gynnig cyngor mewn modd rhagweithiol, a'r ffordd orau o dargedu ein cyngor a'n hadnoddau archwilio. Er mwyn gwneud hyn byddwn yn datblygu proffiliau o'r sefydliadau allweddol rydym yn eu rheoleiddio, gan gynnwys pleidiau cofrestredig a'r unedau cyfrifyddu a'r trydydd partïon ymgyrchu hynny rydym yn ymdrin â hwy yn rheolaidd. Galwn y sefydliadau hyn yn endidau a reoleiddir. Noda Pennod 3 y papur ymgynghori'r meini prawf rydym yn bwriadu eu defnyddio i asesu risg.

Gwaith achos gorfodi

2.8 Gellir ystyried cymryd camau gorfodi mewn achos penodol am sawl rheswm: am na chaiff adroddiad statudol ei roi i ni, neu fod adroddiad a gyflwynwyd yn dynodi achos posibl o dorri'r gyfraith; am ein bod yn cael honiad bod y gyfraith wedi'i thorri; neu am ein bod yn dod yn ymwybodol o broblem bosibl mewn ffordd arall, er enghraifft adroddiad yn y wasg.

2.9 Wrth asesu achos i benderfynu a ddylid cymryd camau ai peidio, fel adolygu'r achos neu ymchwilio iddo, ystyrir tri ffactor:

- **y dystiolaeth** - a oes tystiolaeth, neu ffynhonnell gredadwy o wybodaeth, sy'n ymwneud ag achos posibl o dorri'r gyfraith. Ni fyddwn yn gweithredu ar sail honiad neu ddyfalu yn unig.
- **budd y cyhoedd** – ni fyddwn yn gweithredu os bydd ystyriaethau budd y cyhoedd yn gorbwyso buddiannau posibl gwneud hynny, er enghraifft os nad yw'r sefydliad dan sylw yn bodoli mwyach, neu os bydd unigolyn yn ddifrifol wael.
- **cymesuredd** – dim ond os bydd yr adnoddau sydd eu hangen i ymdrin â'r achos yn gallu cael eu cyfiawnhau o ran difrifoldeb yr achos posibl o dorri'r gyfraith, a/neu effaith ataliol cymryd camau y gwneir hynny.

2.10 Yn dibynnu ar y profion hyn a'r ffeithiau ymhob achos, gallwn benderfynu peidio â chymryd unrhyw gamau o gwbl, cynnig cyngor neu ganllawiau i'r endid a reoleiddir sydd dan sylw, neu gymryd camau gorfodi - naill ai adolygu'r achos neu gynnal ymchwiliad ffurfiol gan ddefnyddio ein pwerau cyfreithiol i geisio gwybodaeth. Os byddwn yn penderfynu cymryd camau gorfodi, byddwn yn cynghori'r rhai dan sylw ac yn ceisio dod i benderfyniad cyflym ynghylch a oes angen sancsiwn ai peidio. Rhydd Pennod 4 o'n papur ymgynghori ragor o wybodaeth am ein pwerau ymchwilio a sut y gwnawn benderfyniadau am waith achos gorfodi (paragraffau 4.1–26).

Sancsiynau

Sancsiynau newydd

2.11 Creodd y ddeddfwriaeth a wnaeth sefydlu ein cyfundrefn reoleiddiol yn 2000 nifer o rwymedigaethau cyfreithiol newydd. Yn y rhan fwyaf o achosion, ceir erlyniad troseddol am fethu â chydymffurfio â'r gyfraith. Fodd bynnag, weithiau gall ymchwiliad troseddol fod yn sancsiwn anghymesur, a rhydd Deddf 2009 amrywiaeth o sancsiynau sifil newydd y gellir eu defnyddio yn lle erlyniad troseddol. Ymhlith y sancsiynau mae cosbau ariannol ac adnoddau anariannol fel 'hysbysiad cydymffurfio', sef hysbysiad cyfreithiol gyfrwymol sy'n ei gwneud yn ofynnol i endid a reoleiddir gymryd camau penodol i gydymffurfio â'r gyfraith. Mae Deddf 2009 hefyd yn ei gwneud yn bosibl i endid a reoleiddir sydd wedi torri'r gyfraith gynnig 'ymgymeriad gorfodi' ffurfiol i ni sy'n nodi'r camau y bydd yn eu cymryd i gydymffurfio a gwneud iawn am ei fethiant.

2.12 Mae Pennod 4 o'r papur ymgynghori (paragraffau 4.31-78) yn egluro beth yw'r sancsiynau newydd, sut maent yn gweithio a sut y cynigiwn eu defnyddio. Caiff nodweddion allweddol y sancsiynau newydd, gan gynnwys y prosesau y mae'n rhaid i ni eu defnyddio i'w rhoi ar waith a'r prosesau y gall endidau a reoleiddir eu defnyddio i apelio yn eu herbyn, eu diffinio gan Ddeddf 2009. Nid yw Deddf 2009 yn nodi'n fanwl sut y dylai'r sancsiynau gael eu cymhwyso na sut y dylem wneud penderfyniadau ynghylch eu defnyddio. Fodd bynnag, mae'n ei gwneud yn ofynnol i ni ymgynghori ar bolisi o'r fath a'i lunio. Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yn llywio'r fersiwn terfynol o'n canllawiau ar y polisi gorfodi, a gyhoeddir gennym cyn i ni ddechrau defnyddio'r sancsiynau newydd. Bydd angen i ni ddilyn ein polisi gorfodi wrth gyflawni ein swyddogaethau rheoleiddio. Byddwn hefyd yn rhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'r Llywodraeth fel y gall eu hystyried wrth lunio is-ddeddfwriaeth fanwl ar y ffordd y dylai sancsiynau fod yn gymwys i wahanol droseddau.

Penderfynu pryd y dylid gosod sancsiwn

2.13 Os byddwn, ar ôl cynnal adolygiad neu ymchwiliad, yn fodlon bod y dystiolaeth yn dynodi y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol yr aed yn groes i'r ddeddfwriaeth, byddwn yn ystyried a yw'n briodol gosod sancsiwn. Yna cynhelir y profion canlynol:

- **Budd y cyhoedd** – yn sgîl ffeithiau'r achos, mae'n rhaid i ni ystyried a oes rheswm budd y cyhoedd dros beidio â gosod sancsiwn - er enghraifft, os nad yw'r endid a reoleiddir dan sylw yn bodoli mwyach.
- **Cymesuredd** – mae'n rhaid i ni benderfynu pa fath o sancsiwn, os o gwbl, y mae'n gymesur ei osod er mwyn cyflawni ein hamcanion gorfodi.

2.14 Yn sgîl y profion hyn, byddwn yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol. Yn fras, gallwn ymateb mewn pedair ffordd. Mae ein papur ar y polisi gorfodi (paragraff 4.30) yn nodi'r opsiynau hyn ac yn rhoi enghreifftiau o'r math o achosion lle y bydd pob opsiwn yn gymwys.

1. **Dim gweithredu** – os mai mân achos o dorri'r gyfraith a geir, ymddengys na fydd yn digwydd eto ac nid yw'n peri unrhyw fygythiad perthnasol i dryloywder na chywidreb cyllid pleidiau ac etholiadau, ni fyddwn yn cymryd camau pellach fel rheol.
2. **Cynnig cymorth a sancsiwn lle y bo angen** – os bydd achos o dorri'r gyfraith yn dynodi bod angen i endid a reoleiddir newid y ffordd y mae'n ymddwyn neu sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i gydymffurfio â'r gyfraith, ond ein bod yn fodlon y gall wneud hynny heb orfod gosod sancsiwn ffurfiol, byddwn fel rheol yn cynnig cymorth fel cyngor neu hyfforddiant i'w helpu i gydymffurfio. Fodd bynnag, os bydd cosb ariannol safonol am y fath achos o dorri'r gyfraith, er enghraifft am fethu â chyflwyno ffurflen statudol, bydd y gosb honno yn opsiwn.
3. **Angen gwella** – os na fydd endid a reoleiddir yn llwyddo i gyflawni ei rwymedigaethau dro ar ôl tro, ond nad yw hyn yn ddigon gwael i haeddu sancsiwn troseddol neu sancsiwn sifil sylweddol iawn, byddwn yn cynnig cymorth a ategir gan sancsiwn priodol i'w annog i gydymffurfio. Gall fod ar ffurf cosb ariannol a/neu hysbysiad cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r endid gymryd camau i gydymffurfio.
4. **Ceisio gwneud iawn ac atal diffyg cydymffurfio** – os gall achos o dorri'r gyfraith gael effaith sylweddol ar dryloywder neu gywirdeb cyllid pleidiau ac etholiadau, neu ei fod yn gyfystyr ag ymgais bwriadol i dorri'r rheolau, byddwn yn ceisio gosod sancsiwn sifil sy'n briodol o ran ei ddifrifoldeb neu - os credwn ei fod er budd y cyhoedd i wneud hynny - byddwn yn cyfeirio'r achos i'r heddlu, neu'r Procuradur Ffisgal yn yr Alban.

2.15 Ymhob achos, byddwn yn defnyddio'r opsiwn gosod sancsiwn sydd fwyaf tebygol o gyflawni ein hamcanion gorfodi mewn ffordd gymesur yn ein barn ni. Mae'r sancsiynau newydd yn cynnig dewisiadau amgen i gyfeirio materion am erlyniad troseddol, gan ei gwneud yn haws i ni gymhwyso sancsiynau sy'n briodol i natur pob trosedd neu achos o dorri'r gyfraith. Byddwn hefyd yn gallu defnyddio dulliau newydd ac adeiladol o sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith lle y bo'n briodol, yn hytrach na rhoi cosb draddodiadol fel dirwy, neu gyfeirio achos am ymchwiliad troseddol.

Gwybodaeth i'r cyhoedd am ein gwaith gorfodi a gosod sancsiynau

2.16 Mae ein papur ar y polisi gorfodi (paragraffau 4.79–81) yn nodi ein dull o ddatgelu a chyhoeddi gwybodaeth am ein gwaith gorfodi. Pan fyddwn yn lansio ymchwiliad hysbysir y rhai dan sylw a chyhoeddir datganiad i'r wasg, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny, fel y posibilrwydd o gael effaith niweidiol ar yr ymchwiliad. Byddwn hefyd yn hysbysu'r rhai dan sylw ac yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ar ddiwedd ymchwiliad, er mwyn egluro'r canlyniad, y rhesymeg dros ein penderfyniadau, ac (ar ôl i'r cyfnod apelio perthnasol ddod i ben) unrhyw sancsiwn a osodwyd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi datganiad i'r wasg a gwybodaeth am achosion a gyfeirir gennym i'r heddlu neu awdurdodau erlyn am ymchwiliad troseddol, a phan wnawn waith ymgyfreitha sifil. Mae gennym rwymedigaeth statudol i gyhoeddi gwybodaeth yn ein Hadroddiad Blynyddol am y defnydd o'n pwerau ymchwilio a'n sancsiynau sifil. Mae ein hymgynghoriad yn croesawu sylwadau ar gwmpas y wybodaeth y dylem ei chyhoeddi.

3 Egwyddorion ein gwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg

Gwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg a gwaith y Comisiwn Etholiadol

3.1 Lle bynnag y bo'n bosibl, ceisiwn ddefnyddio cyngor a chanllawiau, yn hytrach na chymryd camau gorfodi, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r gyfraith. Mae hyn yn adlewyrchu un o brif egwyddorion gwaith rheoleiddio da, fel y nodwyd yn adroddiad Syr Philip Hampton, sef *Reducing Administrative Burdens: Effective Inspection and Enforcement*[2]. Mae hwn yn nodi mai helpu pobl i ddeall yr hyn y mae'n rhaid iddynt ei wneud o'r cychwyn, a'u cynorthwyo i'w wneud yn iawn, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau cydymffurfiaeth.

3.2 Rhown gyngor a chanllawiau mewn amryw o ffyrdd. Eglurwn ofynion Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) i bleidiau gwleidyddol, trydydd partïon cydnabyddedig, a chyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda pan fyddant yn cofrestru â ni gyntaf. Cyhoeddwn ganllawiau ar ystod eang o bynciau, ac ar hyn o bryd rydym wrthi'n adolygu'r ffordd rydym yn strwythuro ac yn darparu canllawiau er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu anghenion y rhai rydym yn eu rheoleiddio. Rhown gyngor ar faterion penodol ar gais (gan gynnwys safbwyntiau cynghori ffurfiol ar faterion cyfreithiol newydd a chymhleth), a rhown hyfforddiant lle y bo angen.

3.3 Deallwn mewn rhai achosion y gall y rhai rydym yn eu rheoleiddio fod yn amharod i ofyn am ein cyngor am nad ydynt am gyfaddef nad ydynt yn cydymffurfio efallai. Pan fydd cais am gyngor yn datgelu tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfio, bydd ein hymateb yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos. Os down i'r casgliad nad yw'r achos o ddiffyg cydymffurfio yn un sylweddol, a bod y cyngor a roddir gennym yn cael ei ddilyn yn brydlon fel y cydymffurfir yn gyflym neu fod y blaid neu'r unigolyn dan sylw yn cymryd camau i sicrhau nad yw'n cael unrhyw fudd o beidio â chydymffurfio, fel rheol ni fydd yr achos yn cael ei gyfeirio i'w ystyried ar gyfer camau gorfodi.

3.4 Os yw'n glir bod cryn dipyn o ddiffyg cydymffurfio yn y gorffennol efallai y bydd angen i ni gyfeirio'r achos i'n tîm gorfodi i'w ystyried, ond bydd y penderfyniad ynghylch pa gamau i'w cymryd yn ystyried pob ffactor perthnasol gan gynnwys a wnaeth y blaid neu'r unigolyn dan sylw ddwyn y mater hwn i'n sylw mewn ymgais i geisio cyngor. Mewn sawl achos, bydd ceisio cyngor ac ymdrechu i sicrhau cydymffurfiaeth yn gamau lliniaru cryf a gall arwain at benderfynu nad oes angen cymryd camau pellach, er y bydd hyn bob amser yn dibynnu ar y ffeithiau mewn unrhyw achos penodol. I'r gwrthwyneb, os byddwn yn cynnig cyngor i endid a reoleiddir ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith, ac na ddilynir y cyngor hwnnw, gallwn ystyried hynny

[2] Mae adroddiad Hampton ar gael yn www.berr.gov.uk/files/file22988.pdf. Rhydd egwyddorion arferion rheoleiddio da gan gynnwys y defnydd o asesiadau risg, rhoi cyngor awdurdodol a hygyrch, a sancsiynau cymesur ac ystyrlon. Caiff yr egwyddorion hyn eu hadlewyrchu yng nghyhoeddiad y Weithrediaeth Rheoleiddio Gwell, sef *Regulators' Compliance Code* (17 Rhagfyr 2007), sydd ar gael yn www.berr.gov.uk/files/file45019.pdf

wrth ystyried ein hymateb i unrhyw achos dilynol o ddiffyg cydymffurfio.

3.5 Un o egwyddorion eraill gwaith rheoleiddio da yw mai dim ond lle y bo'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny y dylem gymryd camau gorfodi. Mae Pennod 4 o'r polisi gorfodi hwn yn egluro sut y defnyddiwn y pwerau a'r sancsiynau sydd ar gael i ni yn unol â'r egwyddor hon. Mae'r bennod hon yn nodi sut y targedwn ein gweithgarwch rheoleiddio mewn modd effeithlon - gan gynnwys rhoi cyngor a chanllawiau, yn ogystal ag ymchwilio a gosod sancsiynau - er mwyn gwneud cymaint â phosibl i sicrhau tryloywder a chywirdeb cyllid pleidiau ac etholiadau o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni.

Asesu risg sefydliadau a reoleiddir

3.6 Mae dros 300 o bleidiau gwleidyddol wedi'u cofrestru â'r Comisiwn, ac mae gan y pleidiau mwy lawer o 'unedau cyfrifyddu' cofrestredig fel cymdeithasau etholaethau, sydd â'u rhwymedigaethau cyfreithiol eu hunain o dan Ddeddf 2000. Er mwyn ein helpu i ddyrannu ein hadnoddau yn effeithiol, rydym wrthi'n datblygu adnoddau asesu risg ffurfiol, sy'n seiliedig ar egwyddorion adroddiad Hampton. Diben yr adnoddau hyn yw darparu dull tryloyw a chyson o asesu'r canlynol:

- y tebygolrwydd y gall y rhai rydym yn eu rheoleiddio gael anhawster i gydymffurfio â'r gyfraith
- yr effaith y gallai problemau o'r fath ei chael ar farn y cyhoedd am gywirdeb a thryloywder cyllid gwleidyddol

3.7 Dros amser rydym yn bwriadu datblygu proffil asesu risg ar gyfer pob plaid wleidyddol gofrestredig, ynghyd â'r unedau cyfrifyddu hynny a sefydliadau eraill a reoleiddir (fel trydydd partïon sy'n ymgyrchu) rydym yn delio â hwy yn rheolaidd. Dim ond â'r endid dan sylw y bwriadwn rannu'r proffil gan mai adnodd mewnol ydyw a ddefnyddir gennym i flaenoriaethu adnoddau rheoleiddio yn seiliedig ar y risg bosibl a berir gan yr endid.[3] Rhoddir rhagor o wybodaeth ym mharagraff 3.19. Bydd y proffiliau hyn yn rhoi trosolwg o'r risg reoleiddiol yr ymddengys fod pob sefydliad yn ei hwynebu, o gymharu â'r sefydliadau eraill rydym yn eu rheoleiddio. **Nid** ydym yn cynnig y dylid datblygu proffiliau unigolion a reoleiddir, fel deiliaid swyddi etholedig. Mae gan yr unigolion hynny a reoleiddir gan Ddeddf 2000 lai o rwymedigaethau rheoliadol na phleidiau cofrestredig, a byddai'n anymarferol ac yn anghymesur ceisio proffilio gallu unigolion a reoleiddir i gydymffurfio â'r gyfraith.

3.8 Bydd pob proffil yn cynnwys dwy ran, sy'n cwmpasu:

- data ar hanes ariannol y sefydliad a'i hanes o gydymffurfio
- unrhyw wybodaeth berthnasol sydd gan y Comisiwn am sefyllfa gyfredol y sefydliad a'i broses lywodraethu, ac unrhyw ffactorau allanol a all

[3] Mae'r defnydd hwn o broffiliau risg yn rhywbeth a wneir gan reoleiddwyr eraill fel yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol.

effeithio ar ei allu yn y dyfodol i gydymffurfio â'r gyfraith, fel newidiadau i'w amgylchedd ariannu

Cofnodion ariannol a chydymffurfio

3.9 Bydd rhan gyntaf y proffil yn cynnwys asesiad a gaiff ei ddiweddaru'n rheolaidd yn erbyn meini prawf penodol, sy'n defnyddio'r data gwrthrychol sydd ar gael i ni ar hanes pob sefydliad o gydymffurfio a graddfa a chymhlethdod ei weithrediadau ariannol. Awgryma profiad fod y rhain yn ddangosyddion allweddol ar gyfer y tebygolrwydd o wynebu problemau cydymffurfio yn y dyfodol, ac effaith problemau o'r fath ar hyder y cyhoedd yn nhryloywder a chywirdeb cyllid gwleidyddol. Felly bydd y broses o asesu sefydliad yn erbyn y meini prawf hyn yn darparu amlinelliad syml o'r risg debygol sy'n wynebu sefydliad o gymharu ag eraill, yn seiliedig ar wybodaeth a gyhoeddwyd. Byddwn yn defnyddio canlyniadau'r asesiadau hyn i bennu'r ffordd y targedwn ein hadnoddau rheoleiddio, o ran cyngor a chanllawiau ac o ran ein gwaith arolygu ac archwilio, fel ein defnydd o'r pŵer a geir yn Neddf 2000 i'w gwneud yn ofynnol archwilio datganiadau o gyfrifon pleidiau.

3.10 Lle y daw achosion parhaus neu ddifrifol o ddiffyg cydymffurfio i'r amlwg yn sgîl y gweithgarwch a wneir gennym o ganlyniad i asesu risg gallwn benderfynu ei bod yn briodol cyfeirio materion o'r fath er mwyn cymryd camau gorfodi yn eu cylch. Fodd bynnag, ni fyddwn yn ceisio defnyddio ein pŵer goruchwylio i gael mynediad i safle plaid ar ôl dechrau cynnal adolygiad neu ymchwiliad i achos o dorri Deddf 2000. Ceir rhagor o wybodaeth am bwerau goruchwylio'r Comisiwn ym mhennod 4 (paragraffau 4.7-9).

3.11 Gall y meini prawf a ddefnyddir gennym i ddechrau ar gyfer y rhan hon o'r asesiad gael eu grwpio o dan dri phennawd a eglurir isod: hanes o gydymffurfio, data ariannol, a graddfa weithredol. Gallwn gyflwyno ffactorau perthnasol eraill o ganlyniad i'n profiad o ddefnyddio'r proffiliau.

1. Fel rhan o'r asesiad o **hanes o gydymffurfio** ystyrir perfformiad blaenorol a thystiolaeth wedi'i hategu o achosion o beidio â chydymffurfio â'r rheolau, dros gyfnod o dair blynedd fel arfer. Byddwn hefyd yn ystyried cydymffurfiaeth â gofynion cofrestru rheolaidd fel cadarnhau manylion cofrestredig sefydliad bob blwyddyn.
2. Bydd ein hasesiad o **ddata ariannol** yn seiliedig ar ddangosyddion allweddol o'r datganiadau o gyfrifon y mae'n ofynnol i bleidiau eu rhoi i ni o dan Ddeddf 2000.
3. Byddwn yn asesu **graddfa weithredol** drwy edrych ar y trosiant a gofnodwyd, nifer yr unedau cyfrifyddu a gofrestrwyd gan y blaid a nifer yr etholiadau y mae wedi eu sefyll yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Ceir rhestr o'r meini prawf arfaethedig yn Atodiad A - Meini prawf ar gyfer proffilio risg ac effaith.

Llywodraethu a ffactorau allanol

3.12 Bydd ail ran y proffil yn cynnwys asesu unrhyw wybodaeth berthnasol arall sydd gennym am broses lywodraethu'r sefydliad a'i allu presennol (a'i allu tebygol yn y dyfodol) i fodloni ei rwymedigaethau o dan Ddeddf 2000. Bydd hefyd yn cwmpasu unrhyw wybodaeth am ffactorau allanol a all

ddylanwadu ar naill ai'r tebygolrwydd o wynebu problemau cydymffurfio, neu'r effaith y byddai problemau o'r fath yn debygol o'i chael ar hyder yn nhryloywder a chywirdeb cyllid gwleidyddol.

3.13 Mae'r rhan hon o'r proffil yn fwy goddrychol na'r rhan gyntaf, gan nad yw'n seiliedig ar gyfres o ddata a gyhoeddwyd. Fel y cyfryw, ni fydd ar ei phen ei hun yn sylfaen gadarn i dargedu ein defnydd o bwerau archwilio ac arolygu statudol sydd â'r potensial i roi baich gweinyddol ar y rhai rydym yn eu rheoleiddio. Felly fe'i defnyddir i lywio ein defnydd o'n hadnoddau cyngor a chanllawiau, yn unol ag egwyddorion arferion rheoleiddio da. Os yw'r rhan hon o'r proffil yn dynodi bod y sefydliad yn wynebu risg gynyddol o beidio â chydymffurfio a/neu y byddai diffyg cydymffurfio o'r fath yn cael effaith sylweddol ar dryloywder a chywirdeb, byddwn yn blaenoriaethu ein hadnoddau ac yn cynnig y cymorth priodol i'r sefydliad dan sylw.

3.14 Unwaith eto, gall y meini prawf a ddefnyddir gennym ar gyfer y rhan hon o'r asesiad gael eu grwpio o dan dri phennawd: proffil cyhoeddus, llywodraethu a gallu, a ffactorau allanol.

1. Bydd y broses o asesu **proffil cyhoeddus** yn ystyried a yw'r sefydliad dan sylw yn cael ei gynrychioli gan gorff etholedig neu'n meddu ar bŵer yn y cyfryw sefydliad, fel Senedd y DU, senedd neu gynulliad datganoledig, Senedd Ewrop, neu gorff rhanbarthol neu leol mawr.
2. Bydd y broses o asesu **llywodraethu a gallu** yn ystyried unrhyw broblemau a oedd yn amlwg pan gofrestrodd y sefydliad â ni gyntaf, ac a yw seilwaith cydymffurfio'r sefydliad (cofnodion, systemau a staff) yn ymddangos yn ddigonol i ymdrin â graddfa ei weithrediadau codi arian a'i wariant. Bydd hefyd yn ystyried unrhyw newid perthnasol mewn strwythur, proses lywodraethu neu arweinyddiaeth dros amser, ac unrhyw newidiadau sylweddol i bolisïau'r sefydliad neu ei ddulliau ymgyrchu neu godi arian a all effeithio ar ffynonellau neu swm ei gyllid.
3. Bydd y broses o asesu **ffactorau allanol** yn ystyried newidiadau yn yr amgylchedd allanol a all effeithio ar ffynonellau cyllid y sefydliad, fel anawsterau economaidd. Ceir rhestr o'r meini prawf presennol yn Atodiad A.

Ein cynnig i fonitro ymgyrchoedd

3.15 Cylch gwaith rheoliadol y Comisiwn yw monitro a sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfundrefn reoleiddio a nodir yn Neddf 2000, ac â gofynion cyfreithiol eraill sy'n ymwneud â gwariant ymgeiswyr mewn etholiadau a'r rhoddion a gânt. Cyn pob digwyddiad etholiadol pwysig yn y DU, mae'n rhaid i'r Comisiwn felly benderfynu ar y ffordd orau o ddyrannu ei adnoddau i fonitro ymgyrchoedd etholiadol, gan gynnwys arsylwi'r broses ymgyrchu mewn amser real er mwyn asesu'r lefelau tebygol o wariant dan sylw, a chraffu ar wariant ymgyrchu pleidiau a ffurflenni treuliau ymgeiswyr ar ôl etholiad.

3.16 Ar hyn o bryd ceisiwn wneud hyn ar sail risg gan ddefnyddio dadansoddiad lefel uchel o'r risg o niweidio cywirdeb a thryloywder cyllid gwleidyddol, gan edrych ar ffactorau penodol yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon fel y bo'n briodol. Er enghraifft, yn achos etholiadau

Mehefin 2009, penderfynodd y Comisiwn fonitro rhywfaint o'r ymgyrchoedd ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop o ddesg, a chraffu ar holl ffurflenni gwariant ymgyrchu pleidiau ar gyfer yr etholiadau hynny, ond peidio ag archwilio ffurflenni treuliau ymgeiswyr unigol ar gyfer yr etholiadau lleol yn Lloegr.

3.17 Yn gyfochrog â'n gwaith o broffilio risg sefydliadau a reoleiddir, rydym bellach wrthi'n datblygu dull mwy trylwyr o werthuso digwyddiadau etholiadol risg uchel ac yn blaenoriaethu ein defnydd o adnoddau i fonitro ymgyrchoedd a chraffu ar ffurflenni gwariant. Bydd y gwaith hwn yn edrych ar 'ardaloedd gornest' etholiadol penodol fel etholaethau yn etholiadau cyffredinol Senedd y DU, rhanbarthau yn etholiadau Senedd Ewrop ac agweddau ar etholiadau mewn ardaloedd datganoledig. Bydd yn asesu pob ardal etholiadol yn erbyn meini prawf sy'n cynnwys:

- data hanesyddol neu amcanestyniadau sy'n awgrymu y bydd yr ornest yn ymylol neu'n anodd iawn
- unrhyw dystiolaeth o swm sylweddol o arian yn llifo i mewn i sefydliadau sy'n ymgyrchu yn yr ardal berthnasol, gan gynnwys pleidiau lleol ac unedau cyfrifyddu pleidiau mwy, naill ai drwy roddion a gofnodwyd neu drwy drosglwyddiadau o rannau eraill o sefydliad
- unrhyw dystiolaeth o wario mawr ar ymgyrchu gan y cyfryw sefydliadau, neu gan sefydliadau cenedlaethol sy'n targedu gweithgarwch yn yr ardal
- unrhyw dystiolaeth y gall fod gan un neu fwy o ymgeiswyr (neu ddarpar ymgeiswyr) broffil personol sy'n fwy na'r arfer, er enghraifft lle mae dau ddeiliad swydd etholiadol yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am fod ffiniau wedi newid
- hanes o ddiffyg cydymffurfio ymhlith un neu fwy o'r sefydliadau dan sylw

3.18 Byddwn yn defnyddio'r asesiad hwn i gynllunio sut i ddyrannu a blaenoriaethu ein hadnoddau monitro a chraffu ar ymgyrchoedd ar gyfer digwyddiadau etholiadol mawr. Bydd graddau'r gwaith monitro a wneir gennym yn dibynnu ar yr adnoddau sydd ar gael, y math o etholiad a'r risgiau (tebygolrwydd ac effaith) dan sylw.

Gwybodaeth gyhoeddus am ein dull gweithredu seiliedig ar risg

3.19 Yn dilyn yr arfer da a sefydlwyd gan Syr Philip Hampton a Chod Cydymffurfio'r Rheoleiddwyr, byddwn yn cyhoeddi ein methodoleg risg ochr yn ochr â'n polisi gorfodi terfynol. Ni fyddwn yn cyhoeddi canlyniadau ein gwaith proffilio asesu risg, ond byddwn yn eu rhannu â'r endid perthnasol a reoleiddir. Bydd ein hasesiad o gofnodion ariannol a chydymffurfio yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ar ein gwefan. Bydd ein hasesiad o lywodraethu a ffactorau allanol yn adlewyrchu gwybodaeth gan amrywiaeth o ffynonellau a all gynnwys gwybodaeth gyfrinachol sydd wedi'i chyfnewid â'r endid perthnasol a reoleiddir. Gall yr asesiadau hyn fod o fudd i'r cyhoedd ond o ystyried yr angen i gynnal hyder y rhai rydym yn eu rheoleiddio credwn y byddai'r niwed posibl a fyddai'n cael ei achosi drwy gyhoeddi'r wybodaeth fewnol hon yn drech nag unrhyw fuddiannau a gallai gael effaith niweidiol ar gynnal materion cyhoeddus yn effeithiol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C1. Rydym yn cynnig system asesu risg mewn perthynas â gwaith rheoleiddio. A ydych yn ymwybodol o unrhyw resymau pam nad yw'r dull gweithredu a amlinellir yn y papur hwn yn cyflawni egwyddorion arferion rheoleiddio da?

C2. Rydym yn bwriadu defnyddio ein hadnoddau prin yn y ffordd fwyaf effeithlon posibl er mwyn gweithio tuag at y nod o gynyddu hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd. I wneud hyn rydym yn cynnig defnyddio asesiadau risg i flaenoriaethu sut y defnyddiwn ein hadnoddau. A ydych yn cytuno fod hyn yn addas? Nodwch unrhyw ddulliau amgen yr hoffech i ni eu hystyried.

C3. Rydym wedi nodi meini prawf y bwriadwn eu defnyddio i ddatblygu proffiliau pleidiau gwleidyddol ac unedau cyfrifyddu. Mae'r rhain yn seiliedig ar wybodaeth ariannol, hanes o gydymffurfio, llywodraethu a ffactorau allanol. A ydych yn cytuno â'r meini prawf hyn? Dywedwch wrthym am unrhyw feini prawf eraill y credwch y dylem eu hystyried hefyd wrth ddatblygu'r proffiliau hyn.

C4. Er mwyn cynnal hyder y rhai rydym yn eu rheoleiddio, credwn mai dim ond â'r endid dan sylw a reoleiddir y mae'n briodol rhannu'r proffil risg. A ydych yn cytuno? Os nad ydych, amlinellwch yr achos dros drefnu bod y fath wybodaeth ar gael yn gyhoeddus.

4 Egwyddorion ein polisi gorfodi a gosod sancsiynau

Trosolwg

4.1 Mae'r rhan hon o'r polisi gorfodi yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r agweddau goruchwylio, ymchwilio a gosod sancsiynau ar ein rôl reoleiddio. Nodir ein cynigion manwl ar gyfer y sancsiynau a ddylai fod yn gymwys i wahanol droseddau ac achosion o fynd yn groes i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000), y ffordd y dylem gyfrifo cosbau ariannol, yr amgylchiadau lle y derbyniwn ymgymeriadau gorfodi gwirfoddol, a gwybodaeth fanwl arall yn yr atodiadau.

Amcanion ein gwaith gorfodi

4.2 Lle bynnag y bo'n bosibl, ceisiwn ddefnyddio **cyngor a chanllawiau** er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, yn unol ag arferion rheoleiddio da. Rydym yn ymrwymedig i feithrin dealltwriaeth glir ymhlith y rhai rydym yn eu rheoleiddio o'u rhwymedigaethau rheoliadol. Mae'n ofynnol i bleidiau gwleidyddol, trydydd partïon cydnabyddedig a chyfranogwyr a ganiateir mewn refferenda gofrestru â ni; pan wnânt hynny, eglurwn ofynion Deddf 2000 a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r gyfraith. Lluniwn ganllawiau ar ystod eang o bynciau, ymatebwn i geisiadau am gyngor, a rhown hyfforddiant lle y gofynnir am hynny. Byddwn yn cymryd **camau gorfodi** pan fo angen gwneud hynny a'i bod yn gymesur gwneud hynny.

4.3 Amcanion cyffredinol ein gwaith gorfodi yw:

- sicrhau bod cyllid pleidiau ac etholiadau yn dryloyw fel y disgwylir gan bleidleiswyr
- dileu unrhyw enillion neu fuddiannau ariannol sy'n dod i law yn sgîl diffyg cydymffurfio
- sicrhau bod cyrff nad ydynt yn cydymffurfio yn cydymffurfio
- atal endidau a reoleiddir rhag peidio â chydymffurfio

4.4 Pan gaiff pryderon am ddiffyg cydymffurfio eu dwyn i'n sylw cynhaliwn asesiad cychwynnol i ddechrau (a amlinellir isod ym mharagraffau 4.10-17) er mwyn pennu'r camau mwyaf priodol i'w cymryd. Ar yr adeg hon efallai y gwnawn benderfynu rhoi cyngor a chanllawiau, neu nad oes angen cymryd camau pellach, neu ei bod yn briodol parhau i adolygu'r achos neu ddechrau ymchwiliad ffurfiol.

4.5 Dim ond ar ôl adolygu neu ymchwilio i fater lle y down i'r casgliad y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod y gyfraith wedi cael ei thorri y gwnawn ystyried y math mwyaf cymesur o sancsiwn (ceir rhagor o wybodaeth am y broses o wneud penderfyniadau ym mharagraff 4.27). Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried difrifoldeb unrhyw ddiffyg cydymffurfio ac amgylchiadau unigol pob achos cyn gwneud unrhyw benderfyniad i:

- **beidio â gweithredu** - lle yr ystyrir mai mân achos o dorri'r gyfraith a geir neu lle bo buddiant y cyhoedd yn ffactor sylweddol sydd ynghlwm wrth beidio â gwneud penderfyniad, neu
- **gynnig cymorth a gosod sancsiwn lle y bo angen**– os bydd achos o dorri'r gyfraith yn dynodi bod angen i endid a reoleiddir sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i gydymffurfio â'r gyfraith, ond ein bod yn fodlon ei fod yn awyddus i gydymffurfio yn y dyfodol ac yn gallu gwneud hynny byddwn yn annog yr endid a reoleiddir i ddefnyddio'r cyngor a'r canllawiau sydd ar gael. Pan fydd achos o dorri'r gyfraith yn un sy'n galw am gosb ariannol benodedig safonol, bydd hynny hefyd yn opsiwn, neu
- **angen gwella** - drwy roi cyfeiriad clir i'r endid a reoleiddir newid y ffordd y mae'n gweithredu er mwyn cydymffurfio a dangos, er ein boddhad, ei fod wedi gwneud hynny, ac ategu hyn gan ddefnyddio sancsiynau sifil hefyd os oes angen, neu
- **geisio gwneud iawn ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol** - bydd hyn yn arbennig o berthnasol mewn achosion lle nas cydymffurfir dro ar ôl tro, achosion lle ceir trafodion lefel uchel ac achosion sy'n cynnwys twyll. Gall hyn gynnwys ymchwiliad sy'n arwain at sancsiwn sifil neu droseddol.

Ein pwerau i fonitro a sicrhau cydymffurfiaeth

4.6 Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 (Deddf 2009) yn ailddatgan y pwerau goruchwylio sydd ar gael i'r Comisiwn a rhydd bwerau ymchwilio ychwanegol. Mae pwerau goruchwylio (a ddisgrifir isod) ar gael i ni at ddibenion rheolaidd monitro cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a geir yn Neddf 2000. Dim ond pan fydd y Comisiwn yn amau bod rhywun wedi torri'r gyfraith y gall ddefnyddio'r pwerau ymchwilio sydd ar gael iddo, ond gall y rhain gael eu cymhwyso i unrhyw unigolyn neu sefydliad (er enghraifft unigolyn neu sefydliad sydd wedi gwneud rhodd), ac nid dim ond y rhai rydym yn eu rheoleiddio.

Sut a pham y defnyddiwn ein pwerau goruchwylio

4.7 Fel rhan o'n rôl statudol o fonitro cydymffurfiaeth â'r gyfraith weithiau mae angen i ni gael gwybodaeth gan y rhai rydym yn eu rheoleiddio ac ymweld â hwy, fel plaid wleidyddol, cymdeithas aelodau[4], trydydd parti cofrestredig neu gyfranogwr a ganiateir. Er enghraifft, gwnawn hyn wrth archwilio'r defnydd o grantiau datblygu polisi a roddir gennym i bleidiau gwleidyddol. Lle y bo'n bosibl mae'n well gennym wneud hyn yn wirfoddol, gan roi rhybudd ymlaen llaw os dymunwn ymweld â safle. Fodd bynnag mae gennym bwerau statudol i sicrhau y gallwn gael gwybodaeth os oes angen.

4.8 Os gwrthodir mynediad i safle ar ôl gwneud cais, mae gennym hefyd bŵer i ofyn i ynad gytuno i roi gwarant i ni sy'n caniatáu mynediad. I wneud hyn rhaid i ni allu darbwyllo'r ynad o'r canlynol:

[4] Caiff termau fel cymdeithas aelodau a chyfranogwyr a ganiateir eu hegluro yn y rhestr termau ym mhennod 5.

- bod sail resymol dros gredu bod dogfennau yn ymwneud ag incwm a gwariant y sefydliad neu'r unigolyn ar y safle
- bod angen i ni archwilio'r dogfennau er mwyn cyflawni swyddogaethau'r Comisiwn ar wahân i swyddogaethau ymchwilio
- ein bod wedi gofyn caniatâd i archwilio'r dogfennau ar y safle a'i fod wedi cael ei wrthod yn afresymol

4.9 Ni allwn ddefnyddio'r pŵer hwn i archwilio dogfennau er mwyn cynnal ymchwiliad i achos a amheuir o dorri'r gyfraith. Mae ein pwerau sy'n ymwneud ag ymchwilio i achosion o dorri'r gyfraith ar wahân a manylir arnynt ym mharagraffau 4.18-22.

Sut a pham yr adolygwn ac yr ymchwiliwn i achosion posibl o dorri'r gyfraith

4.10 Gallwn ddechrau cynnal ymchwiliad am sawl rheswm:

- rydym yn monitro prydlondeb a chynnwys ffurflenni i sicrhau eu bod yn gywir ac yn bodloni gofynion statudol, gan gymryd camau gorfodi lle y bo'n briodol
- rydym yn cael cwynion am achosion honedig o dorri'r gyfraith, ac er mwyn sicrhau cysondeb defnyddiwn broses ffurfiol i ystyried ac asesu honiadau er mwyn pennu a oes rheswm dros gynnal adolygiad neu ymchwiliad
- gallwn benderfynu gweithredu ar ein liwt ein hunain. Er enghraifft os down yn ymwybodol o achos posibl o dorri'r gyfraith drwy ohebiaeth fewnol neu allanol neu adroddiadau yn y wasg, ond nad ydym wedi cael honiad ffurfiol, defnyddiwn yr un broses ffurfiol a ddefnyddiwn ar gyfer honiadau i ystyried ac asesu a oes rheswm dros gynnal adolygiad neu ymchwiliad pellach neu ai cyngor a chanllawiau sydd eu hangen mewn perthynas â'r mater

Sut y penderfynwn pryd i adolygu neu ymchwilio i achos

4.11 Pan fydd adolygiad o ffurflen statudol, honiad, neu wybodaeth arall yn awgrymu bod angen i ni ganfod a yw endid a reoleiddir wedi torri'r rheolau ystyriwn bob achos ar ei rinwedd ei hun er mwyn sicrhau bod unrhyw gamau a gymerir gennym yn angenrheidiol, yn gymesur ac yn gyson.

4.12 Y cam cyntaf yw cynnal asesiad cychwynnol. Byddwn yn ystyried y wybodaeth sydd ar gael ac unrhyw gofnodion neu wybodaeth a ddelir gan y Comisiwn. Fodd bynnag, ni fyddwn yn defnyddio ein pwerau i geisio unrhyw dystiolaeth ychwanegol ar yr adeg hon.

4.13 Bydd yr asesiad cychwynnol yn ein galluogi i ddosbarthu'r achos i un o'r categorïau canlynol:

- **achos lle nad oes angen cymryd camau gorfodi** – efallai y byddwn yn cynnig cyngor i'r sefydliad dan sylw lle y bo'n briodol, er enghraifft rhoi canllawiau ar brisio a thrin rhoddion anariannol, er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r rheolau cofnodi yn y dyfodol
- **achos a adolygir** am gyfnod penodol, a all arwain at ymchwiliad maes o law, neu
- **achos yr ymchwilir iddo**, lle mae angen cynnal cyfweliadau ffurfiol neu ddefnyddio ein pwerau statudol

Achos a adolygir

4.14 Bydd mater newydd yn dod yn achos a adolygir os yw'r canlynol yn gymwys:

- mae gennym dystiolaeth neu rydym wedi nodi ffynhonnell gredadwy o wybodaeth sy'n dynodi achos posibl o dorri deddfwriaeth cyllid pleidiau ac etholiadau, nid yn honni neu'n dyfalu hynny'n unig

Enghraifft
Os bydd achwynydd yn datgan ei fod yn credu y gallai unigolyn a reoleiddir fod wedi derbyn rhodd nas caniateir am ei fod wedi bod mewn cysylltiad â rhoddwr nad yw ar y gofrestr etholiadol, ni fyddai hyn ynddo'i hun yn rheswm dros adolygu'r achos. Fodd bynnag, os oes gan yr achwynydd wybodaeth uniongyrchol am y rhodd honedig neu ei fod wedi datgan y gallai fod ganddo wybodaeth berthnasol oddi wrth unigolyn y gellid ei enwi sydd â'r fath wybodaeth, gallai hyn fod yn rheswm dros adolygu'r achos.

- ymddengys fod angen cynnal adolygiad sy'n gymesur. Bydd adolygiad yn gymesur os caiff yr adnoddau i adolygu'r achos eu cyfiawnhau yn sgîl yr holl ffactorau perthnasol gan:
  - ddifrifoldeb yr achos posibl o dorri'r gyfraith ac felly'r graddau y gall danseilio cywirdeb a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau, a/neu
  - effaith ataliol ymchwiliad ar y rhai dan sylw ac eraill a all fel arall fod yn debygol o gyflawni achos pellach neu debyg o dorri'r gyfraith

Enghraifft
Os bydd achwynydd yn datgan bod plaid wedi derbyn rhodd sylweddol nas caniateir ac nad yw wedi ei dychwelyd na rhoi gwybod amdani, bydd adolygiad (ac ymchwiliad o bosibl) fel arfer yn gymesur o ran difrifoldeb. Fodd bynnag, os bydd cwyn yn ymwneud â rhodd gwerth isel nas caniateir a dderbyniwyd gan blaid dair blynedd yn ôl ac a ddychwelwyd i'r rhoddwr wedyn (ond y tu hwnt i'r terfyn amser a ragnodir gan Ddeddf 2000), ac y byddai

ymchwilio i'r mater yn galw am gynnal nifer fawr o gyfweliadau ag unigolion nad ydynt yn gweithio i'r blaid mwyach a fyddai'n gofyn am lawer o adnoddau i ddod o hyd iddynt neu gysylltu â hwy, gallwn ddod i'r casgliad na fyddai'n ddefnydd cymesur o arian cyhoeddus i gynnal ymchwiliad.

- mae manteision adolygiad yn drech nag unrhyw ffactorau sy'n awgrymu nad yw adolygiad er budd y cyhoedd, er enghraifft salwch difrifol unigolyn, neu lle nad yw plaid wedi bodoli ers cryn amser

Enghraifft
Os bydd achwynydd yn datgan ei bod yn bosibl bod plaid leiafrifol nad yw'n bodoli mwyach ac sydd wedi dadgofrestru wedi derbyn rhoddion nas caniateir, nid yw defnyddio arian cyhoeddus i gynnal ymchwiliad yn debygol o fod er budd y cyhoedd.

4.15 Nid yw achosion a adolygir yn cynnwys defnyddio cyfweliadau ffurfiol na phwerau ymchwilio statudol. Fodd bynnag, gall mater a adolygir ddod yn ymchwiliad ffurfiol yn ystod y broses adolygu os oes angen.

Achosion yr ymchwilir iddynt

4.16 Rhydd Deddf 2009 bwerau i ni ymchwilio i achosion lle mae gennym sail resymol dros amau bod y gyfraith wedi'i thorri.

4.17 Dim ond lle y bo'n rhesymol ac yn gymesur gwneud hynny gan ddefnyddio'r prawf cymesuredd a ddisgrifir yn 4.14 y defnyddiwn ein pwerau ymchwilio. Mewn achosion lle y penderfynwn fod angen i ni ddefnyddio cyfweliadau ffurfiol neu bwerau statudol i bennu a yw'r gyfraith wedi'i thorri o fewn y terfyn amser statudol neu, os oes achos o dorri'r gyfraith wedi digwydd yn amlwg o fewn y terfyn amser, a ddylid gosod sancsiwn neu gyfeirio unigolyn neu sefydliad am erlyniad troseddol, caiff ein gweithgarwch gorfodi ei ddynodi'n ymchwiliad yn ffurfiol.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C5 Mae'r papur ymgynghori (paragraffau 4.14-4.17 o'r papur ymgynghori) yn nodi'r ffactorau y bwriadwn eu defnyddio i bennu pa gamau i'w cymryd mewn perthynas â mater newydd. A ydych yn cytuno â hyn? A oes unrhyw ffactorau ychwanegol y dylid eu hystyried yn eich barn chi wrth i ni asesu a ddylid cymryd camau pellach mewn perthynas â mater newydd?

Ceisio gwybodaeth fel rhan o ymchwiliad

4.18 Mewn achosion lle mae gennym sail resymol dros gredu bod y gyfraith wedi'i thorri, disgwyliwn gymryd y camau canlynol wrth geisio gwybodaeth fel rhan o ymchwiliad, oni bai bod rheswm da dros wneud fel arall:[5]

1. byddwn yn ceisio gwybodaeth gan yr unigolyn neu'r sefydliad yn wirfoddol
2. os na fydd yr unigolyn neu'r sefydliad yn cydweithredu o'i wirfodd pan ofynnir am wybodaeth, byddwn yn defnyddio ein pwerau statudol i ofyn am ddogfennaeth, gwybodaeth neu esboniad drwy hysbysiad datgelu a/neu yn ei gwneud yn ofynnol i unigolion ddod am gyfweliad
3. os na fydd yr unigolyn neu'r sefydliad yn cydymffurfio â hysbysiad datgelu, ac os yw'n angenrheidiol ac yn gymesur cymryd camau pellach, byddwn yn defnyddio ein pwerau i geisio cydymffurfiaeth â'r hysbysiad hwn (caiff y pŵer hwn gan ddefnyddio gorchymyn llys ei nodi ym mharagraffau 4.21-22 isod). Disgwyliwn ddefnyddio'r llysoedd i sicrhau cydymffurfiaeth â hysbysiad datgelu pan fetho popeth arall.

Sut y defnyddiwn bwerau ymchwilio

4.19 Os na chaiff y wybodaeth y gofynnwn amdani ei rhoi yn wirfoddol, gallwn roi hysbysiad datgelu statudol sy'n ei gwneud yn ofynnol i unrhyw unigolyn gyflwyno dogfennaeth, gwybodaeth, neu esboniad o'i weithgareddau o fewn amser rhesymol a nodir yn yr hysbysiad. Bydd faint o amser a ganiateir i gyflwyno gwybodaeth yn dibynnu ar ansawdd a chymhlethdod y wybodaeth a geisir. Os nad oes gan unigolyn ddogfennau neu wybodaeth am yr hyn y gofynnir amdano dylai egluro hynny. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â hysbysiad datgelu heb esgus rhesymol.

4.20 Gallwn hefyd ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un y credwn yn rhesymol ei fod yn meddu ar unrhyw wybodaeth berthnasol gael cyfweliad ac ateb unrhyw gwestiynau y credwn yn rhesymol eu bod yn berthnasol. Mae'r mesurau diogelu arferol sy'n ymwneud â thystiolaeth hunanargyhuddol a'r ffaith nad yw'n dderbyniol mewn achosion troseddol yn gymwys.

Gorchmynion llys

4.21 Mewn amgylchiadau lle mae gan y Comisiwn sail resymol dros amau bod trosedd wedi cael ei chyflawni neu fod achos o fynd yn groes i ddeddfwriaeth wedi digwydd gallwn roi hysbysiad datgelu ar gyfer dogfennau, gwybodaeth neu esboniad, fel y disgrifiwyd uchod. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â hysbysiad datgelu, rhwystro'r Comisiwn, neu roi gwybodaeth anwir. Os na fydd y derbynnydd yn ymateb i'r hysbysiad datgelu, mae gennym hefyd bwerau i wneud cais i'r Uchel Lys (neu'r Llys Sesiwn yn yr Alban) am

[5] Mae'r cyfeiriad at 'rheswm da dros wneud fel arall' yn adlewyrchu'r ffaith y gall fod angen i'r Comisiwn ddefnyddio ei bwerau statudol ar unwaith er budd y cyhoedd yn achlysurol. Er enghraifft, gall hyn fod yn angenrheidiol os oes perygl y caiff tystiolaeth hanfodol ei dinistrio neu ei symud.

orchymyn datgelu sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno dogfennau neu roi gwybodaeth neu esboniad.

4.22 Bydd y Llys ond yn rhoi'r fath orchymyn os dangoswn y canlynol:

- bod y Comisiwn wedi rhoi hysbysiad datgelu
- bod sail resymol dros gredu bod unigolyn (nid yr ymatebydd o reidrwydd) wedi cyflawni trosedd neu wedi mynd yn groes i ddeddfwriaeth o dan Ddeddf 2000 neu drwyddi
- bod dogfennau neu wybodaeth:
  - heb gael eu cyflwyno yn unol â hysbysiad cynharach
  - sy'n rhesymol ofynnol gan y Comisiwn i ymchwilio i'r drosedd neu'r achos o fynd yn groes i ddeddfwriaeth
  - ym meddiant neu o dan reolaeth yr ymatebydd

Amserlenni

4.23 Mae'r amser a gymerir i gwblhau adolygiad neu ymchwiliad yn dibynnu ar natur yr achos a'i ffeithiau. Pan fydd llawer iawn o dystiolaeth i'w chasglu a'i hasesu, neu pan fydd yr achos posibl o dorri'r gyfraith yn ymwneud â maes cymhleth iawn neu faes nas profwyd o'r gyfraith, mae'r achos yn debygol o gymryd mwy o amser. Cydnabyddwn ei bod er budd y cyhoedd, ac er budd cyfiawnder naturiol i'r rhai dan sylw, i ni gwblhau ein gwaith achos cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso hyn â'n dyletswydd i gynnal ymchwiliad teg a thrylwyr.

4.24 Mae achosion a adolygir yn gyfyngedig o ran amser ac yn gyffredinol maent yn llai cymhleth nag ymchwiliadau gan nad ydynt yn cynnwys cynnal cyfweliadau ffurfiol neu ddefnyddio pwerau ymchwilio. Byddwn yn cynnal asesiadau rheolaidd (unwaith y mis o leiaf) a fydd yn arwain at bennu a ddylid:

- ailddynodi'r achos yn ymchwiliad, neu
- gau'r achos heb gymryd unrhyw gamau gorfodi pellach, neu
- gau'r achos a gosod sancsiwn sifil, neu
- barhau i adolygu'r achos

4.25 Caiff achosion yr ymchwilir iddynt eu hasesu'n rheolaidd a'u cau heb gymryd camau pellach os down i'r casgliad nad ydynt yn debygol o arwain at ddod o hyd i achos o dorri'r gyfraith. Pennwn darged i ni'n hunain o ddatrys 90% o achosion o fewn chwe mis.[6]

4.26 Dim ond am dri mis y gallwn gadw dogfennau a gyflwynwyd yn unol â gorchymyn llys, oni bai bod camau cyfreithiol wedi dechrau mewn perthynas â throsedd. Yn ymarferol byddwn yn dychwelyd dogfennau yn gynt na hyn os nad ydynt yn berthnasol i ymchwiliad.

Pennu'r camau gweithredu mwyaf priodol

[6] Y Comisiwn Etholiadol, *Cynllun Corfforaethol 2009–10 hyd 2013–14*, HC 389, t 9.

Y fframwaith gwneud penderfyniadau

4.27 Ar ôl i adolygiad neu ymchwiliad ddod i ben ystyriwn y camau mwyaf priodol i'w cymryd. Yn gyntaf cynhaliwn brawf tystiolaethol i bennu a dorrwyd y gyfraith ai peidio. Os bydd hynny wedi digwydd, cynhaliwn brawf budd y cyhoedd i gadarnhau a yw'n briodol gosod sancsiwn. Disgrifir y profion hyn isod.

Prawf tystiolaethol
4.28 Bodlonir y prawf tystiolaethol pan fo tystiolaeth ar gael sy'n cadarnhau y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod endid a reoleiddir wedi torri'r gyfraith.

Prawf budd y cyhoedd
4.29 Er mwyn pennu a fyddai sancsiwn sifil o fudd i'r cyhoedd, awn ati i bwyso a mesur y ffactorau o blaid ac yn erbyn sancsiwn, a all gynnwys y canlynol:

Ffactorau o blaid sancsiwn:

- Byddai sancsiwn yn cael effaith ataliol ar yr endid a all fel arall gyflawni trosedd debyg eto.
- Byddai sancsiwn yn cael gwared ar unrhyw fudd a gafodd yr endid.
- Byddai sancsiwn yn cynnal hyder y cyhoedd yn y gyfundrefn reoleiddio.
- Mae'r drosedd yn tanseilio cywirdeb neu dryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau.
- Heb unrhyw reswm da, nid yw'r endid wedi derbyn ein cyngor ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith berthnasol na glynu wrthi.
- Byddai sancsiwn yn atal eraill a all fel arall gyflawni trosedd debyg.

Ffactorau yn erbyn sancsiwn:

- Mân drosedd ydyw.
- Byddai effaith sancsiwn ar yr endid yn anghymesur o niweidiol.
- Byddai gosod sancsiwn yn gwaethygu unrhyw salwch corfforol neu feddyliol difrifol.
- Ni fyddai cost gyhoeddus y sancsiwn yn cael ei chyfiawnhau gan y budd i'r cyhoedd.
- Mae'r endid wedi gwneud ymdrech gwirioneddol i ddilyn ein canllawiau neu ein cyngor blaenorol ar sut i gydymffurfio â'r gyfraith berthnasol.

Cwestiwn yr ymgynghoriad

C6. A ydych yn cytuno â'r ffactorau (paragraff 4.29 o'r papur ymgynghori) rydym yn cynnig eu defnyddio i bennu a oes digon o resymau budd y cyhoedd dros beidio â gosod sancsiwn? Dywedwch wrthym a oes unrhyw ffactorau y dylem neu na ddylem eu hystyried yn eich barn chi.

4.30 Yn sgîl y profion hyn, byddwn yn penderfynu ar y camau gweithredu priodol. Yn fras, gallwn ymateb mewn pedair ffordd:

1. Peidio â gweithredu - mae hyn yn debygol o fod yn briodol lle y down i'r casgliad fod yr achos o dorri'r gyfraith mor fach neu anfwriadol, a bod y perygl na fydd yr endid a reoleiddir yn cyflawni'r rhwymedigaeth berthnasol yn y dyfodol mor fach, hyd nes ei bod yn golygu nad yw'n gymesur i ni gymryd unrhyw gamau. Bydd hefyd yn briodol os bydd ffactor budd y cyhoedd sylweddol yn erbyn gweithredu, fel deiliaid swyddi cofrestredig plaid wleidyddol yn gadael a bod y blaid yn cael ei diddymu.

Enghraifft 1
Mae plaid yn cyflwyno ffurflen rhoddion chwarterol erbyn y dyddiad terfyn, ond mae tudalen ar goll, ar ôl iddi gael ei gadael yn y llungopïwr. Caiff y dudalen a oedd ar goll ei chyflwyno drannoeth.

Enghraifft 2
Mae plaid fach heb unrhyw gynrychiolwyr etholedig nac unrhyw roddion a gofnodwyd yn ei hanes yn newid ei harweinydd cofrestredig heb hysbysu'r Comisiwn.

2. Cynnig cymorth, a gosod sancsiwn lle y bo angen – mae hyn yn debygol o fod yn briodol lle y down i'r casgliad fod yr achos o dorri'r gyfraith yn dynodi bod angen i endid a reoleiddir newid y ffordd y mae'n ymddwyn neu sicrhau ei fod mewn sefyllfa well i gydymffurfio â'r gyfraith, ond ein bod yn fodlon bod yr endid yn barod i wneud hynny ac y gall wneud hynny heb i ni orfod parhau i fygwth sancsiynau. Fel arfer byddwn yn ymateb i'r fath achosion drwy egluro i'r endid a reoleiddir ei fod wedi torri'r gyfraith a chynnig cymorth fel cyngor neu hyfforddiant i'w helpu i gydymffurfio yn y dyfodol. Pan fydd achos o dorri'r gyfraith yn un sy'n galw am gosb safonol, fel cosb ariannol benodedig, bydd y gosb honno hefyd ar gael.

Enghraifft
Nid yw plaid sydd newydd gofrestru wedi cyflwyno ei dwy ffurflen rhoddion chwarterol gyntaf ar amser, am nad yw wedi datblygu system weinyddol effeithiol i gyflwyno ffurflenni, ond mae wrthi'n gwneud hynny ac mae wedi ceisio cyngor gan y Comisiwn ac yn ei ddilyn.

3. **Angen gwella** – mae hyn yn debygol o fod yn briodol os na fydd endid a reoleiddir yn llwyddo i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol dro ar ôl tro, ond nad yw hyn yn ddigon gwael i ystyried sancsiwn troseddol neu sancsiwn sifil sylweddol iawn. Yn yr achosion hyn byddwn yn cynnig cymorth fel cyngor neu hyfforddiant i helpu'r endid i gydymffurfio yn y dyfodol, ond byddwn hefyd yn ceisio ategu hyn â sancsiynau priodol - er enghraifft, cosb ariannol amrywiadwy i gymell endidau i gydymffurfio yn y

dyfodol, a/neu hysbysiad cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r endid gymryd camau penodol i gydymffurfio â'r gyfraith. Bydd ein penderfyniad ymhob achos yn ystyried yr angen i atal achosion o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol gan y rhai rydym yn eu rheoleiddio.

Enghraifft
Nid yw plaid wedi llwyddo i gyflwyno ffurflenni rhoddion, ffurflenni benthyciadau a datganiadau o gyfrifon ar amser dro ar ôl tro yn y pedair blynedd ers ei sefydlu er gwaethaf nifer o gosbau ariannol penodedig. Mae angen i rai ffurflenni gael eu cyflwyno o hyd ac ni thalwyd rhai cosbau ariannol sy'n destun camau i'w hadennill. Nid yw'r blaid wedi dilyn cyngor na chanllawiau'r Comisiwn yn y gorffennol.

4. **Ceisio gwneud iawn ac atal diffyg cydymffurfio yn y dyfodol** - mae hyn yn debygol o fod yn briodol mewn achosion a all gael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd yn nhryloywder a chywirdeb cyllid pleidiau ac etholiadau - er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â symiau mawr o arian, achosion perthnasol o ddiffyg cydymffurfio dro ar ôl tro, neu droseddau sy'n ymwneud ag ymgais bwriadol i dorri'r rheolau. Yn yr achosion hyn, byddwn yn ceisio gosod sancsiynau sifil priodol, fel cosb ariannol amrywiadwy sylweddol a/neu hysbysiad cydymffurfio/gwneud iawn, neu hysbysiad atal neu, lle y down i'r casgliad ei bod er budd y cyhoedd gwneud hynny, byddwn yn cyfeirio achosion o'r fath i'r heddlu (y Procuradur Ffisgal yn yr Alban). Bydd ein penderfyniad ymhob achos yn ystyried yr angen i atal achosion o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol gan y rhai rydym yn eu rheoleiddio.

Enghraifft
Nid yw plaid wedi llwyddo i ddychwelyd na chofnodi chwe rhodd sylweddol gan roddwr nas caniateir yn ystod chwarter drwy asiant ac ni wnaeth ddatgelu'r wybodaeth berthnasol i'r Comisiwn er gwaethaf sawl cais.

Y sancsiynau sydd ar gael i ni

4.31 Pan fyddwn wedi bodloni ein hunain y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod tystiolaeth ar gael i ddangos y torrwyd y gyfraith, mae amrywiaeth o sancsiynau ar gael i ni i ategu amcanion ein polisi gorfodi.

Sancsiynau presennol

4.32 Rhydd Deddf 2000 sancsiynau troseddol ar gyfer troseddau a gyflawnir o dan y Ddeddf. Fodd bynnag, efallai na fydd cyfeirio unigolyn neu sefydliad am erlyniad troseddol yn gymesur â natur yr achos o dorri'r gyfraith bob amser. Er i Ddeddf 2000 ddarparu nifer gyfyngedig o gosbau sifil am gyflwyno ffurflenni statudol yn hwyr (a gaiff eu diddymu pan fydd y sancsiynau sifil newydd yn dod i rym) a'n bod yn gallu gwneud cais i ynad am fforffedu arian a ddaw o ffynonellau nas caniateir neu na ellir eu nodi, mae'r rhain ond yn gymwys i ran fach o reolau cyllid pleidiau ac etholiadau. Lle'r ydym wedi

defnyddio cosbau sifil am gyflwyno ffurflenni chwarterol yn hwyr rydym wedi gweld cynnydd sylweddol mewn cyfraddau cydymffurfio.

Sancsiynau a fydd ar gael yn y dyfodol

4.33 Mae Deddf 2009 yn cynnwys amrywiaeth o sancsiynau sifil y gellir eu rhagnodi drwy is-ddeddfwriaeth i'w gwneud yn gymwys i droseddau ac achosion o fynd yn groes i Ddeddf 2000. Mae'r sancsiynau sifil newydd yn seiliedig ar sancsiynau a gynhwysir yn Neddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008,[7] sy'n gweithredu argymhellion adolygiad a gynhaliwyd gan yr Athro Richard Macrory i ystyried y ffordd orau y gallai rheoleiddwyr ddefnyddio sancsiynau i sicrhau cydymffurfiaeth. [8]

4.34 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar y polisi gorfodi drafft hwn, bydd y Comisiwn yn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth ar y ffordd y dylai'r sancsiynau newydd gael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth. Yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad hwn, disgwyliwn argymell y camau canlynol, sy'n gyson â safbwyntiau gweinidogion y Llywodraeth a fynegwyd yn ystod dadl Seneddol ar Fesur Deddf 2009:[9]

- dylai'r holl sancsiynau sifil newydd fod yn gymwys i'r mwyafrif helaeth o droseddau a geir yn Neddf 2000, gan y byddant yn ei gwneud yn bosibl cymryd camau gorfodi mewn ffordd lawer mwy cymesur a hyblyg, fel yr amlinellir isod
- fodd bynnag, dylai nifer gyfyngedig o droseddau yn Neddf 2000 (gan gynnwys rhai a grëwyd gan Ddeddf 2000) barhau i fod yn destun erlyniad troseddol yn unig, gan eu bod yn gysylltiedig ag ymgais bwriadol i gamarwain neu dorri'r rheolau. Yn ein barn ni mae'r fath droseddau yn cynnwys:
  - rhoi gwybodaeth anwir am rodd i drysorydd plaid wleidyddol a hynny'n fwriadol, neu beidio â datgelu gwybodaeth am roddion i drysorydd gyda'r bwriad o dwyllo (Adran 61(2)(a) o Ddeddf 2000)
  - newid, cuddio neu ddinistrio dogfennau yn ymwneud â materion ariannol sefydliadau neu unigolion a oruchwylir (Adran 148(1) o Ddeddf 2000)
  - rhoi gwybodaeth anwir mewn ymateb i gais am wybodaeth a hynny'n fwriadol (Adran 148(2)(b) o Ddeddf 2000)
  - rhwystro ymchwilydd a hynny'n fwriadol (Atodlen 19B i Ddeddf 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2009, paragraff 14(2))
  - gwneud datganiad anwir mewn perthynas â ffynhonnell neu werth rhodd a hynny'n fwriadol neu'n ddi-hid (Adran 54A(6) o Ddeddf 2000 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2009)

[7] Mae Deddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau 2008 ar gael yn: www.opsi.gov.uk/acts/acts2008/pdf/ukpga_20080013_en.pdf
[8] Yr Athro Richard Macrory, *Regulatory Justice: Making Sanctions Effective, Final Report,* (Tachwedd 2006), ar gael yn www.berr.gov.uk/files/file44593.pdf
[9] Dadl Tŷ'r Arglwyddi, 15 Mehefin 2009, colofn 879

Cwestiwn yr ymgynghoriad

C7. A ydych yn cytuno y dylai rhai troseddau o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000), fel y rhai a restrir ym mharagraff 4.34 o'r papur ymgynghori, barhau i fod yn destun erlyniad troseddol yn unig?

4.35 Bydd yr amrywiaeth newydd o sancsiynau sifil hyblyg a chymesur, a nodir isod, yn rhoi dulliau amgen i ni o gyfeirio materion am erlyniad troseddol. Byddant yn ei gwneud yn haws i ni gymhwyso sancsiynau sy'n briodol i natur pob trosedd neu achos o dorri'r rheolau. Byddwn hefyd yn gallu defnyddio dulliau newydd ac adeiladol o sicrhau cydymffurfiaeth â'r gyfraith lle y bo'n briodol, yn hytrach na rhoi cosb draddodiadol fel dirwy, neu gyfeirio achos am ymchwiliad troseddol. Er enghraifft, gallem gyflwyno hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol i gorff nad yw'n cydymffurfio gymryd camau penodol er mwyn cydymffurfio, fel diwygio systemau plaid neu hyfforddi ei swyddogion ar eu rhwymedigaethau cyfreithiol, neu gallem dderbyn ymgymeriadau gorfodi.

4.36 Yn unol ag amcanion ein camau gorfodi, byddwn yn defnyddio ein sancsiynau sifil mewn modd cymesur i ddileu unrhyw fuddiannau sy'n deillio o ddiffyg cydymffurfio, sicrhau bod cyrff nad ydynt yn cydymffurfio yn cydymffurfio, ac atal y rhai rydym yn eu rheoleiddio rhag peidio â chydymffurfio yn y dyfodol.

4.37 Mae natur raddedig y sancsiynau sifil sydd ar gael i ni yn darparu cyfundrefn sancsiynau hyblyg sy'n ein galluogi i deilwra'r sancsiwn yn briodol. Er enghraifft, byddem yn gallu rhoi cosb ariannol amrywiadwy briodol, a/neu hysbysiad cydymffurfio sy'n ymdrin â methiant penodol (er enghraifft, diffyg system i sicrhau bod gwybodaeth benodol yn cael ei rhoi ar amser) neu ddiffyg adnoddau mwy cyffredinol (er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol i endid a reoleiddir gydweithredu i hyfforddi ei swyddogion ar eu rhwymedigaethau cyfreithiol).

4.38 Mae un sancsiwn eithriadol, sef **hysbysiad atal**, a fydd yn ein galluogi i gymryd camau i atal gweithredoedd anghyfreithlon posibl rhag digwydd neu atal gweithgarwch anghyfreithlon rhag parhau. Gallwn ddefnyddio hysbysiad atal mewn perthynas ag achos difrifol o dorri'r gyfraith sydd ar fin digwydd, er enghraifft, gweithgarwch ymgyrchu a fyddai'n torri rheolau gwariant etholiadau. Bydd hyn yn ein galluogi i atal gweithred anghyfreithlon sy'n anelu at gael dylanwad sylweddol ar etholiad, yn hytrach nag aros iddi ddigwydd cyn gosod sancsiwn. Yn wahanol i gosbau ariannol penodedig a gofynion dewisol, nid oes angen safon brofi droseddol ar hysbysiadau atal. Felly mae Deddf 2009 yn pennu trothwy uchel cyn y gellir eu rhoi; rhaid bod perygl mawr o ddigwyddiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ddifrifol ar hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd y gyfundrefn reoleiddio.

4.39 Mewn achosion lle mae'r holl sancsiynau sifil yn gymwys i drosedd, gallwn nodi yn ein polisi gorfodi terfynol a gyhoeddir, mai ein polisi fydd

dibynnu'n bennaf ar is-gyfres o'r sancsiynau hynny mewn perthynas â'r drosedd honno. Er enghraifft (fel y trafodir ym mharagraffau 4.44-47) byddem yn disgwyl rhoi cosb ariannol benodedig yn hytrach na gosod sancsiwn mwy difrifol yn achos ffurflen rhoddion chwarterol a oedd ychydig yn hwyr, sy'n drosedd o dan adran 65(3) o Ddeddf 2000. I'r gwrthwyneb, nid yw cosb ariannol benodedig yn debygol o fod yn briodol yn achos trosedd fel hwyluso rhodd nas caniateir (Adran 61(1) o Ddeddf 2000). Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth yn rhoi cryn hyblygrwydd i ni benderfynu ar y sancsiwn mwyaf priodol, a chredwn ei bod yn briodol i'r hyblygrwydd hwn gael ei gynnwys yn yr is-ddeddfwriaeth. Bydd hyn yn rhoi'r hyblygrwydd priodol i ymdrin â chyfres benodol o ffeithiau, oherwydd gallai ein profiad o weithredu'r sancsiynau newydd arwain at ddiwygio ein polisi dros amser.

4.40 Mae Deddf 2009 yn caniatáu i'r sancsiynau sifil newydd gael eu cyflwyno mewn perthynas ag achosion o dorri Deddf 2000 nad ydynt yn droseddau. Mae sawl achos pwysig o dorri Deddf 2000 nad ydynt yn droseddau, ac felly nid oes modd gosod sancsiwn mewn perthynas â hwy ar hyn o bryd. Byddai'n rhaid i'r rhain gael eu rhagnodi mewn is-ddeddfwriaeth, ac unwaith eto, byddwn yn cyflwyno argymhellion i'r Llywodraeth ar hyn yn sgîl canlyniad yr ymgynghoriad hwn. Mater i'r Llywodraeth yw penderfynu pa achosion o dorri Deddf 2000, os o gwbl, nad ydynt yn droseddau a ddylai fod yn destun sancsiwn sifil. Ar hyn o bryd, credwn er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn teimlo'n hyderus ynghylch cyfundrefn ariannu cyllid pleidiau ac etholiadau drwy hyrwyddo tryloywder a chywirdeb y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno'r sancsiynau sifil mewn perthynas â'r achosion canlynol o dorri Deddf 2000:

- peidio â hysbysu'r Comisiwn o newidiadau i fanylion cofrestredig plaid wleidyddol (Adran 31 o Ddeddf 2000)
- peidio â chadw cyfrifon (Adran 41(1) o Ddeddf 2000)
- peidio â chadw cyfrifon am chwe blynedd (Adran 41(4) o Ddeddf 2000 ac Adran 41(5) o Ddeddf 2000)
- peidio â rhoi manylion am natur rhodd anariannol (Atodlen 6, paragraff 4(3) o Ddeddf 2000)

4.41 Byddem yn disgwyl dibynnu ar gosbau ariannol penodedig i osod sancsiwn am y cyntaf o'r achosion uchod, a defnyddio naill ai cosb ariannol benodedig, cosb ariannol amrywiadwy neu hysbysiad cydymffurfio fel y bo'n briodol mewn perthynas â'r lleill.

Cwestiwn yr ymgynghoriad

C8. A ydych yn cytuno y dylai'r achosion o dorri'r gyfraith a restrir ym mharagraff 4.40 o'r papur ymgynghori arwain at sancsiynau sifil? A oes unrhyw achosion eraill o dorri'r gyfraith o dan Ddeddf 2000 y dylai sancsiynau sifil fod yn gymwys iddynt yn eich barn chi?

Sut y defnyddiwn sancsiynau i sicrhau cydymffurfiaeth

4.42 Dengys Tabl 1 sut y gallwn gymhwyso pob un o'r sancsiynau sydd ar gael i ni, a rhydd ragor o wybodaeth am bob un ohonynt.

Tabl 1: Sut y gallwn gymhwyso sancsiynau

Sancsiwn	Enghraifft
Dim gweithredu	lle ceir mân achos o dorri'r gyfraith ac ystyrir nad yw'r endid yn debygol o wneud yr un peth eto yn y dyfodol neu mae rheswm budd y cyhoedd dros beidio â gweithredu
Cosb ariannol benodedig	diffyg cydymffurfio lefel isel fel rhoi gwybodaeth statudol yn hwyr
Cosb ariannol amrywiadwy	achosion mwy difrifol o dorri'r gyfraith na'r hyn sy'n gymwys ar gyfer cosbau penodedig lle y gellir pennu lefel y ddirwy i adlewyrchu difrifoldeb y drosedd
Gofyniad i gydymffurfio	lle y nodwn fod angen i endid a reoleiddir wella ei allu i gydymffurfio, er enghraifft, drwy hyfforddi staff neu newid systemau
Gofyniad i wneud iawn	sicrhau bod endid nad yw'n cydymffurfio yn gwneud iawn am dorri'r gyfraith, er enghraifft, drwy ildio unrhyw fuddiannau a ddeilliodd o hynny
Hysbysiad atal	sancsiwn 'amser real' na ddylid ei ddefnyddio oni bai bod perygl difrifol o niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o reoleiddio cyllid pleidiau
Ymgymeriad gorfodi	gall hwn gael ei gynnig gan endid a reoleiddir sy'n ymwybodol o'r ffaith nad yw'n cydymffurfio, o dan unrhyw amgylchiadau
Fforffedu drwy orchymyn llys (sancsiwn presennol)	prin y cymhwysir y sancsiwn hwn, sy'n cynnwys rhoddion a benthyciadau dros y trothwy a ganiateir gan ffynonellau nas caniateir a ffynonellau nas nodir a dderbynnir gan endid a reoleiddir
Cyfeirio unigolyn neu sefydliad am erlyniad troseddol (sancsiwn	achosion a gaiff effaith sylweddol ar hyder yn nhryloywder a chywirdeb cyllid

Sancsiwn	Enghraifft
presennol)	pleidiau ac etholiadau, fel y rhai sy'n cynnwys symiau mawr o arian, diffyg cydymffurfio dro ar ôl tro mewn ffyrdd perthnasol, neu ymgais bwriadol. Dim ond pan fyddwn yn penderfynu ei bod er budd y cyhoedd cyfeirio unigolyn neu sefydliad y gwneir hynny.

Sut y bydd sancsiynau yn gymwys

4.43 Amlinellir y ffordd y cynigiwn ddefnyddio pob un o'r sancsiynau hyn ym mharagraffau (4.44–70). Ceir gwybodaeth fanwl am y broses o'u defnyddio yn yr atodiadau.

Ein cynnig ar gyfer defnyddio cosbau ariannol penodedig[10]

4.44 Dirwyon o swm penodol yw cosbau ariannol penodedig. Byddant yn briodol pan geir achosion lefel isel o ddiffyg cydymffurfio. Cynigiwn ddefnyddio cosbau ariannol penodedig ar gyfer nifer gyfyngedig o droseddau, yn ymwneud â rhoi gwybodaeth statudol yn hwyr (er enghraifft, ffurflenni chwarterol a datganiadau o gyfrifon). Dim ond pan fyddwn yn fodlon bod y gyfraith wedi'i thorri yn unol â'r safon brofi droseddol (y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol) y gallwn roi cosb ariannol benodedig.

4.45 Cynigiwn ddefnyddio cosbau ariannol penodedig ar gyfer troseddau a gaiff lai o effaith ar dryloywder a chywirdeb cyllid pleidiau. Mae a wnelo'r rhain yn bennaf â rhoi gwybodaeth o fewn terfynau statudol. Er enghraifft credwn y dylid rhoi cosb ariannol benodedig am gyflwyno ffurflenni rhoddion a benthyciadau chwarterol hyd at 28 diwrnod ar ôl y terfyn amser. Os na chyflwynir ffurflen o fewn y terfyn amser hwn byddem yn ystyried defnyddio sancsiwn cryfach, fel gofyniad dewisol (gweler paragraffau 4.48-4.60 ac Atodiad C). Un eithriad i hyn yw'r gofyniad i bleidiau gyflwyno ffurflenni rhoddion a benthyciadau wythnosol yn yr wythnosau yn arwain at etholiad cyffredinol. Yn ein barn ni caiff unrhyw fethiant i gyflwyno ffurflenni yn ystod y cyfnod hwn effaith sylweddol ar dryloywder a chynigiwn y dylid defnyddio cosbau ariannol amrywiadwy am y drosedd hon.

Enghraifft 1
Pe byddai 'Plaid A' yn rhoi ei ffurflen rhoddion chwarterol i'r Comisiwn chwe diwrnod yn hwyr, byddai'n cael cosb ariannol benodedig o £200.

Enghraifft 2
Mae 'Plaid B' yn cyflwyno ei ffurflen rhoddion chwarterol ddeufis yn hwyr, gan arwain at gael cosb ariannol amrywiadwy o £1,000.

[10] Gweler Atodiad B am ragor o wybodaeth am gosbau ariannol penodedig

Enghraifft 3
Mae 'Plaid C' yn cyflwyno ei ffurflen wythnos yn hwyr yn ystod ymgyrch etholiad cyffredinol. Gan nad yw'r blaid wedi datgelu gwybodaeth bwysig am ei chyllid ar adeg hollbwysig yn y gylchred etholiadol byddai'n cael cosb ariannol amrywiadwy, a byddai'r swm yn dibynnu ar yr amgylchiadau.

4.46 Yn y pen draw mater i'r Llywodraeth fydd penderfynu ar lefel y gosb ariannol benodedig a chaiff ei nodi mewn is-ddeddfwriaeth sy'n dilyn Deddf 2009. Byddwn yn rhoi ein safbwyntiau i'r Llywodraeth ar y lefel briodol gan ystyried ein profiad gweithredol a'r safbwyntiau a gaiff eu mynegi yn yr ymgynghoriad hwn. Ar hyn o bryd, credwn fod cosb ariannol benodedig o £200 yn rhwystr priodol i ddarbwyllo pleidiau ac unedau cyfrifyddu rhag peidio â chydymffurfio. Ni chynigiwn argymell rhoi cosb lai i unedau cyfrifyddu, oherwydd mewn sawl achos bydd unedau cyfrifyddu mewn sefyllfa well i gydymffurfio â'r gyfraith na phleidiau llai, oherwydd y cymorth sydd ar gael gan sefydliad y blaid ganolog.

4.47 Dim ond ar ôl rhoi hysbysiad cychwynnol i'r endid dan sylw a reoleiddir y rhown gosb ariannol benodedig, gan egluro'r rhesymau dros y gosb a nodi ei hawliau i wneud cynrychioliadau a'r amser a ganiateir i wneud hyn. Ar ôl ystyried unrhyw gynrychioliadau yn ofalus, efallai na wnawn gymryd unrhyw gamau pellach neu, os penderfynwn fod sancsiwn yn briodol, byddwn yn rhoi hysbysiad terfynol sy'n cadarnhau'r gosb ac yn egluro'r trefniadau o ran talu a'r hawl i apelio.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C9. Os nad ydych yn cytuno bod £200 yn gosb ariannol benodedig addas, beth fyddai swm addas yn eich barn chi a pham?

C10. Credwn fod peidio â chydymffurfio â'r gofyniad i gyflwyno ffurflenni yn wythnosol yn ystod y cyfnod cyn etholiad cyffredinol Seneddol yn y DU yn weithred digon difrifol i ystyried defnyddio cosbau ariannol amrywiadwy (yn hytrach na chosbau ariannol penodedig). A ydych yn cytuno? Os nad ydych, dywedwch pam.

Gofynion dewisol[11]

4.48 Ceir amrywiaeth o sancsiynau sifil 'gofyniad dewisol', sy'n cynnwys **cosbau ariannol amrywiadwy**, **gofynion cydymffurfio**, a **gofynion gwneud iawn**. Gall y sancsiynau hyn gael eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd. Byddant yn ein galluogi i gymhwyso sancsiynau hyblyg a chymesur i achosion o ddiffyg cydymffurfio sy'n fwy difrifol na'r rhai sy'n

[11] Gweler Atodiad C am ragor o wybodaeth am ofynion dewisol.

ymwneud â chosbau penodedig, ond nad ydynt yn ddigon difrifol i'w gwneud yn ofynnol eu cyfeirio i'r heddlu.

4.49 Mae'r broses o gyflwyno gofyniad dewisol yn dilyn yn fras y broses a nodir ym mharagraff 4.47 ar gyfer cosb ariannol benodedig ac fe'i hamlinellir yn fanylach yn Atodiad C.

Cosbau ariannol amrywiadwy

4.50 Mae Deddf 2009 yn nodi y gellir pennu cosbau ariannol amrywiadwy yn unol â swm a bennir gan y Comisiwn (wedi'i gapio yn unol â'r uchafswm statudol ar gyfer troseddau diannod). Rhaid i'r canllawiau rydym yn ymgynghori arnynt (drwy'r polisi gorfodi drafft hwn) hefyd nodi'r materion rydym yn debygol o'u hystyried wrth bennu swm y gosb. Credwn ei bod yn bwysig i'r graddfeydd ar gyfer cyfrifo cosbau ariannol amrywiadwy fod yn hyblyg i ystyried difrifoldeb y drosedd a ph'un a ddylid cymhwyso'r gosb ar ei phen ei hun neu gyda hysbysiad cydymffurfio neu wneud iawn. Cynigiwn y dylai swm cosb ariannol amrywiadwy gael ei bennu ar lefel briodol er mwyn dileu unrhyw fudd ariannol sy'n deillio o'r drosedd ac ystyried yr amgylchiadau. Er enghraifft, rydym yn debygol o ystyried rhoi cosb ariannol amrywiadwy mewn amgylchiadau lle:

- yr ymddengys fod yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn fwy na methiant gweinyddol syml
- mae'r achos o ddiffyg cydymffurfio yn fwriadol neu'n ddi-hid
- mae'n drosedd a gyflawnwyd o'r blaen neu mae hanes gwael o gydymffurfio
- ni fyddai gwneud iawn am y sefyllfa neu ei gwneud yn ofynnol cymryd camau o dan hysbysiad gorfodi ynddo'i hun yn debygol o atal achosion pellach o ddiffyg cydymffurfio
- mae angen cael effaith ataliol mewn perthynas ag endidau eraill a reoleiddir

4.51 Bydd ein hasesiad o amgylchiadau'r drosedd yn ystyried yr holl ffactorau o blaid ac yn erbyn gan gynnwys:

Yn erbyn:

- graddau'r achos o dorri'r gyfraith, er enghraifft y niwed a achosir i hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd, am ba hyd y bu diffyg cydymffurfio
- hanes o ddiffyg cydymffurfio o fewn yr endid a reoleiddir
- budd ariannol neu fantais arall i'r endid a reoleiddir neu eraill o ganlyniad i beidio â chydymffurfio â rheoliadau
- diffyg cydweithredu gan yr endid a reoleiddir ar ôl darganfod nad yw'n cydymffurfio
- heb lynu wrth gamau blaenorol gan y Comisiwn, neu reoleiddiwr arall, i helpu'r endid a reoleiddir i gydymffurfio
- anonestrwydd
- parhau i wadu'r ffeithiau er gwaethaf tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb
- ceisio rhoi'r bai ar bobl eraill yn annheg

O blaid:

- hanes da o gydymffurfio cyn hynny
- camau wedi cael eu cymryd i ddileu neu ostwng y risg o niwed yn sgîl diffyg cydymffurfio rheoleiddiol
- rhoi gwybod am achosion o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn wirfoddol
- camau wedi cael eu cymryd i wneud iawn am y niwed a wnaed yn sgîl diffyg cydymffurfio rheoleiddiol
- cydweithio â'r Comisiwn wrth ymateb i'r diffyg cydymffurfio
- cred wirioneddol (er yn anghywir) nad oedd y camau dan sylw yn gyfystyr â thorri'r gofynion statudol, yn enwedig lle y lluniwyd barn o'r fath ar ôl cael cyngor priodol
- tystiolaeth a gaiff ei hategu i ddangos bod salwch wedi effeithio ar gamau gweithredu'r aelod
- cydnabod na lwyddwyd i ddilyn y gofynion statudol

4.52 Nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr o'r ffactorau a byddwn yn ystyried yr holl amgylchiadau perthnasol ymhob achos.

Enghraifft
Nid yw plaid yn rhoi gwybod am sawl rhodd sylweddol yn ystod un chwarter gan roddwr penodol tan i newyddiadurwr dynnu sylw at hyn rai misoedd yn ddiweddarach. Yn ein barn ni cosb ariannol amrywiadwy fyddai'r sancsiwn mwyaf priodol.

4.53 Wrth bennu lefel y gosb ariannol amrywiadwy, ni allwn fynd yn uwch nag uchafswm lefel y ddirwy y gellid ei gorchymyn am y drosedd honno. Bydd y broses o bennu'r lefel yn seiliedig ar ystyried a yw'r drosedd yn cynnwys trafodion ariannol, trafodion anariannol, neu a yw'n drosedd sy'n arwain at uchafswm dirwy statudol o £5,000. Cynigiwn bennu isafswm o £500 ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy i adlewyrchu graddfa ddifrifoldeb y sancsiwn, fel y gellir gwahaniaethu'n ddigonol rhyngddynt a'r gosb ariannol benodedig lefel is.

4.54 Pan fydd yr uchafswm dirwy statudol am drosedd ddiannod (a all fod yn gymwys i drafodion ariannol neu anariannol a ddisgrifir isod) wedi'i gapio'n £5,000, bydd y gosb yn amrywio rhwng 10% a 100% o'r uchafswm o £5,000. Mae a wnelo troseddau a gaiff eu capio yn ôl yr uchafswm statudol ag achosion o dorri rheolau gweinyddol fel gweithredu heb awdurdod, peidio â hysbysu'r unigolyn cyfrifol, neu dalu anfonebau y tu hwnt i'r terfynau amser penodedig. Mae gan dair trosedd newydd a sefydlwyd gan Ddeddf 2009 gosbau sydd wedi'u capio yn ôl yr uchafswm statudol hefyd: peidio â chydymffurfio ag un o bwerau ymchwilio'r Comisiwn heb esgus rhesymol, rhwystro ymchwilydd yn fwriadol, a methiant gan gymdeithas anghorfforedig i roi gwybodaeth i'r Comisiwn neu gyflwyno ffurflen o fewn y cyfnod penodedig. Mae'r 'troseddau diannod wedi'u capio' hyn yn cyfrif am tua 20% o'r holl droseddau o dan Ddeddf 2000, fel y'i diwygiwyd.

4.55 Cynigiwn y dylai cosbau ariannol amrywiadwy am achos o ddiffyg cydymffurfio sy'n cynnwys trafodyn ariannol fel rhodd neu fenthyciad gael eu

pennu rhwng 25% a 200% o werth y rhodd neu'r trafodyn penodol. Ymhlith y troseddau sy'n cynnwys trafodion ariannol mae: hwyluso gwneud datganiad anwir (Adran 61(1) o Ddeddf 2000), hwyluso trafodyn a reoleiddir sy'n cynnwys cyfranogwr nas awdurdodir (Adran 71L(9) o Ddeddf 2000).

4.56 Gall troseddau o dan Ddeddf 2000 hefyd gynnwys trafodion anariannol, sydd yn aml yn ymwneud â thorri rheolaethau ymgyrchoedd. Er enghraifft mae troseddau o'r fath yn cynnwys mynd y tu hwnt i derfynau statudol gwariant ymgyrchoedd (Adran 79(2) o Ddeddf 2000), a pheidio â chydymffurfio â'r gofynion o ran ffurflenni gwariant ymgyrchoedd (Adran 82(4)(b) o Ddeddf 2000). Ar gyfer pleidiau gwleidyddol, unedau cyfrifyddu a rhoddwyr a reoleiddir mae gennym gofnod o ffurflenni rhoddion sy'n rhoi syniad i ni o adnoddau endidau o'r fath. Fel y cyfryw cynigiwn y dylai cosbau gael eu pennu gan gyfeirio at raddfa sy'n amrywio o 0.25% i 2% o'r rhoddion a gofnodir ar gyfer y pedwar chwarter blaenorol, lle y bo ar gael. Ar gyfer sefydliadau sy'n ymgyrchu fel trydydd partïon a reoleiddir a chyfranogwyr a ganiateir nad oes rhaid iddynt ein hysbysu o roddion yn barhaus, cynigiwn y dylid seilio cosbau ariannol amrywiadwy ar raddfa o hyd at 10% o derfyn perthnasol gwariant ymgyrchoedd. Credwn fod hyn yn rhoi digon o hyblygrwydd i ni gyfrifo sancsiynau mewn modd cymesur a byddwn yn ystyried adnoddau'r endid i'r graddau y gallwn wrth wneud hyn.

Enghraifft
Mae trydydd parti cofrestredig yn gwario £1.2 miliwn yn ystod y cyfnod a reoleiddir, gan fynd y tu hwnt i'r terfyn o £988,000 yn ystod cyfnod etholiad cyffredinol Seneddol y DU. Wrth ystyried lefel y gosb ariannol amrywiadwy i'w chymhwyso, byddem yn gallu ystyried dirwy o hyd at £98,000 (h.y. hyd at 10% o'r terfyn gwariant) yn dibynnu ar amgylchiadau o blaid ac yn erbyn yr achos.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

C11. Nodir gofynion dewisol ym mharagraffau 4.48-56 o'r papur ymgynghori. Yn eich barn chi, a oes unrhyw feini prawf eraill y dylem eu hystyried i sicrhau bod cosbau ariannol amrywiadwy yn cael eu cymhwyso mewn modd cymesur?

C12. A ydych yn cytuno bod y graddfeydd arfaethedig ar gyfer cosbau ariannol amrywiadwy yn rhoi digon o gyfle i osod sancsiynau mewn modd hyblyg? Pa opsiynau amgen y byddech yn eu hargymell?

Gofynion cydymffurfio
4.57 Byddwn yn defnyddio gofynion cydymffurfio i bennu'r hyn y mae'n rhaid i endid a reoleiddir ei wneud, o fewn cyfnod penodedig, fel nad yw'r drosedd yn parhau nac yn cael ei chyflawni eto, er enghraifft, newid prosesau mewnol neu gael hyfforddiant ar y gofynion cyfreithiol. Os bwriadwn gyflwyno gofyniad

cydymffurfio byddwn, yn y lle cyntaf, yn cyflwyno hysbysiad cychwynnol sy'n egluro'r hyn rydym yn ei gynnig, ac yn rhoi'r cyfle i'r sefydliad neu'r unigolyn dan sylw wneud cynrychioliadau. Byddwn yn ystyried unrhyw gynrychioliadau ac yna'n penderfynu a ddylid cymryd camau pellach, neu a ddylid cyflwyno hysbysiad terfynol yn gosod y gofyniad cydymffurfio a gynigiwyd gennym yn yr hysbysiad cychwynnol, neu fersiwn diwygiedig o'r gofyniad hwnnw. Bydd yr hysbysiad terfynol hwn yn nodi beth yw'r gofyniad cydymffurfio, y rhesymau dros ei osod, yr amser a ganiateir i gymryd y camau gofynnol, canlyniadau diffyg cydymffurfio a sut i apelio yn erbyn yr hysbysiad terfynol yn y llys.

Enghraifft
Nid yw plaid yn rhoi'r holl wybodaeth sydd ei hangen yn ei ffurflenni statudol yn gyson, o ganlyniad i ddiffyg dealltwriaeth o'r gofynion mae'n debyg ymhlith staff perthnasol y blaid. Byddai gofyniad yn cael ei gyflwyno i'r blaid hyfforddi ei holl swyddogion ac aelodau sy'n gyfrifol am gyflwyno ffurflenni statudol.

4.58 Pan fydd yr endid a reoleiddir wedi ein bodloni iddo gyflawni'r gofyniad byddwn yn cyflwyno tystysgrif gwblhau. Gall y Llywodraeth bennu'r meini prawf, neu'r uchafswm neu'r lleiafswm ar gyfer cosbau diffyg cydymffurfio mewn is-ddeddfwriaeth i'w hystyried gan y Senedd. Awgrymwn na ddylai cosb am ddiffyg cydymffurfio gyda chosbau anariannol, fel gofyniad cydymffurfio, fod yn llai na chost cyflawni'r gweithgareddau gofynnol. Nodir y broses a ddefnyddiwn i osod a gorfodi gofynion cydymffurfio yn fanylach yn Atodiad C.

Gofynion gwneud iawn
4.59 Byddwn yn defnyddio gofynion gwneud iawn i bennu'r hyn y mae'n rhaid i endid a reoleiddir ei wneud, o fewn cyfnod penodedig, i adfer y sefyllfa i'r hyn a fyddai'n gymwys os na fyddai trosedd wedi cael ei chyflawni, i'r graddau y bo'n bosibl, er enghraifft, ildio buddiannau a gafwyd o ganlyniad i drafodyn nas caniateir. Bydd y broses a nodwyd uchod ar gyfer gofynion cydymffurfio ym mharagraff 4.58 hefyd yn gymwys i ofynion gwneud iawn. Ceir rhagor o fanylion am ofynion gwneud iawn yn Atodiad C.

4.60 Gallwn ddefnyddio hysbysiad gwneud iawn fel sancsiwn ar ei ben ei hun neu gyda gofynion dewisol eraill mewn unrhyw sefyllfa lle mae endid a reoleiddir wedi cael budd o ddiffyg cydymffurfio, a bod y budd hwnnw yn gallu cael ei ddileu drwy ei gwneud yn ofynnol iddo adfer y sefyllfa i'r hyn a oedd cyn yr achos o ddiffyg cydymffurfio.

Hysbysiadau atal[12]

4.61 Bydd hysbysiad atal yn ein galluogi i'w gwneud yn ofynnol i endid a reoleiddir roi'r gorau i weithgarwch sy'n peri risg ddifrifol o niweidio hyder y cyhoedd yn y broses o reoleiddio cyllid gwleidyddol. Dim ond mewn amgylchiadau lle y credwn yn rhesymol bod unigolyn yn cyflawni neu'n debygol o gyflawni gweithgarwch sy'n peri'r fath risg y gallwn ddefnyddio hysbysiad atal. Hwn yw'r unig sancsiwn y gallwn ei ddefnyddio mewn modd rhagataliol, i atal trosedd rhag cael ei chyflawni. Bydd yr hysbysiad atal yn nodi'r camau y mae'n rhaid i'r unigolyn eu cymryd, y sail dros gyflwyno'r

[12] Gweler Atodiad Ch am ragor o wybodaeth am hysbysiadau atal

hysbysiad, y dull o apelio a chanlyniadau peidio â chydymffurfio â hysbysiad. Pan fydd y Comisiwn yn fodlon bod y camau yn yr hysbysiad wedi cael eu cymryd byddwn yn cyflwyno **tystysgrif gwblhau**. Mae'n drosedd peidio â chydymffurfio â hysbysiad atal, a gall arwain at ddirwy o hyd at £20,000.

Enghraifft
Mae sefydliad sy'n ymgyrchu sydd wedi'i gofrestru'n drydydd parti wedi cydnabod yn flaenorol ei fod wedi gwario hyd at £100,000 o'r terfyn gwariant ar etholiad cyffredinol gyda phythefnos yn weddill cyn diwrnod yr etholiad, ac mae bellach wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg sy'n sôn am 'ymgyrch bosteri gwerth £200,000 a fydd yn dechrau o fewn dyddiau i'r etholiad. Byddai'r Comisiwn yn cyflwyno hysbysiad atal i'w rwystro rhag cynnal rhagor o weithgareddau ymgyrchu.

4.62 Ceir rhagor o wybodaeth am ddefnyddio a chymhwyso hysbysiadau atal yn Atodiad Ch.

Ymgymeriadau gorfodi[13]

4.63 Gall endid a reoleiddir gynnig llunio **ymgymeriad gorfodi** ar ei liwt ei hun er mwyn gwneud iawn am dorri'r gyfraith.

4.64 Nid oes rhaid i ni dderbyn ymgymeriad gorfodi. Fodd bynnag, ystyriwn bob cynnig i lunio ymgymeriad gorfodi o ddifrif.

4.65 Bydd ymgymeriadau gorfodi yn ei gwneud yn bosibl i endidau a reoleiddir gynnig, ac i'r Comisiwn ystyried, ffyrdd arloesol o wneud iawn a hyrwyddo cydymffurfiaeth. Gan mai endidau a reoleiddir sy'n penderfynu a gânt eu llunio ai peidio, byddwn yn ystyried a yw eu defnydd yn briodol fesul achos.

4.66 Wrth ystyried a ddylid derbyn ymgymeriad gorfodi ai peidio byddwn yn ystyried y ffactorau canlynol ymhlith rhai eraill:

- a gafodd y Comisiwn wybod am y mater yn wirfoddol
- difrifoldeb yr achos o ddiffyg cydymffurfio
- unrhyw anonestrwydd, twyll neu gamgynrychioliadau bwriadol, neu i'r gwrthwyneb gamddealltwriaeth wirioneddol o ran y gofynion statudol
- cost ymchwiliad llawn
- cofnod cydymffurfio'r endid
- a luniwyd ymgymeriadau gorfodi blaenorol gan yr endid ar gyfer yr un achos o ddiffyg cydymffurfio neu achos tebyg
- y tebygolrwydd o adfer sefyllfa'r rhai dan sylw
- y tebygolrwydd y gwnaiff yr ymgymeriad atal achosion tebyg o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol
- yr angen i rwystro'r rhai a reoleiddir gennym rhag gwneud yr un peth
- i ba raddau y mae'r endid yn derbyn yr achos o ddiffyg cydymffurfio

[13] Gweler Atodiad D am ragor o wybodaeth am ymgymeriadau gorfodi.

- unrhyw gyngor a roddir i'r endid yn uniongyrchol ar y gofyniad/gofynion statudol perthnasol
- unrhyw ymddiheuriad neu edifarhau

4.67 Pan fydd endid a reoleiddir yn cytuno ar ymgymeriad gorfodi gyda ni ond yna'n methu â'i gyflawni, gallwn osod sancsiwn mewn perthynas â'r drosedd wreiddiol. Ceir rhagor o wybodaeth am y broses a ddefnyddiwn i ystyried ymgymeriadau gorfodi yn Atodiad D.

Cwestiwn yr ymgynghoriad

C13. A oes meini prawf (paragraffau 4.63-7 o'r papur ymgynghori) eraill y dylem eu defnyddio yn eich barn chi wrth ystyried a ddylid derbyn ymgymeriad gorfodi, er enghraifft i sicrhau bod y rhai rydym yn eu rheoleiddio yn cael eu trin mewn ffordd deg a chyson?

Fforffedu a rheoli rhoddion a benthyciadau nas caniateir a dienw

4.68 Rhydd Deddf 2000, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2009, ddau sancsiwn ar wahân ar gyfer achosion lle y caiff rhodd neu fenthyciad gan roddwr nas caniateir neu ffynhonnell ddienw ei dderbyn gan endid a reoleiddir. Yn gyntaf, mae'n drosedd cadw rhoddion o'r fath. Yn ail, gall y Comisiwn wneud cais i'r llysoedd o dan broses sifil am i'r sawl sydd wedi derbyn y rhodd fforffedu swm sy'n cyfateb iddi, a delir i'r Gronfa Gyfunol. Hyd yn hyn nid yw'r Comisiwn wedi cyfeirio trosedd a amheuir o dan y darpariaethau hyn am ymchwiliad troseddol. Ers mis Chwefror 2007 rydym wedi ceisio sicrhau bod rhoddion nas caniateir a dderbyniwyd gan endid a reoleiddir yn cael eu fforffedu.

4.69 Mae fforffedu yn dal i fod yn ddarpariaeth annibynnol y gellir ei chymhwyso ar y cyd â sancsiynau eraill sy'n deillio o unrhyw drosedd neu hebddynt. Yn y dyfodol, mewn achosion lle mae endid a reoleiddir wedi derbyn rhodd nas caniateir, byddwn yn cymryd y camau mwyaf priodol ymhob achos er mwyn sicrhau'r canlyniad a ddymunir o dan ein fframwaith gwneud penderfyniadau.

Cyfeirio unigolyn neu sefydliad am erlyniad troseddol

4.70 Dim ond lle y credwn ei fod er budd y cyhoedd i gyfeirio achosion am erlyniad troseddol am fod y drosedd honedig wedi cael effaith sylweddol ar hyder y cyhoedd yn nhryloywder a chywirdeb cyllid pleidiau ac etholiadau y gwnawn hynny. Pennir yr hyn sydd er budd y cyhoedd ar sail ffeithiau ac amgylchiadau pob achos.

Y broses o osod sancsiynau

4.71 Dim ond pan fyddwn yn 'fodlon y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol' fod trosedd wedi cael ei chyflawni neu fod achos o dorri'r rheolau wedi

digwydd y byddwn yn gosod sancsiwn sifil ac eithrio hysbysiadau atal ac ymgymeriadau gorfodi[14].

4.72 Mae'r broses ganlynol yn crynhoi'r camau a gymerwn wrth ystyried gosod sancsiwn (heblaw am hysbysiad atal, neu gytuno ar ymgymeriad gorfodi) a nodir yn fanwl yn yr atodiadau. Cyn gosod sancsiwn ar sefydliad neu unigolyn a reoleiddir, rhown hysbysiad cychwynnol iddynt sy'n nodi ein bwriad i osod sancsiwn. Bydd yr hysbysiad yn cynnwys gwybodaeth am sail yr hysbysiad, swm unrhyw gosb ariannol, cyfleoedd i wneud cynrychioliadau a'r terfyn amser. Yna gall yr endid naill ai gyflawni ei rwymedigaeth drwy dalu'r swm sy'n cyfateb i'r gosb yn syth,[15] aros am y sancsiwn sifil, neu wneud cynrychioliadau a gwrthwynebiadau. Gallwn benderfynu diwygio'r sancsiwn mewn ymateb i gynrychioliadau, er enghraifft drwy newid gwerth cosb ariannol.

4.73 Os byddwn yn penderfynu parhau i osod sancsiwn, rhaid i ni roi hysbysiad terfynol sy'n cadarnhau'r canlynol:

- y rheswm dros osod y sancsiwn
- sut i dalu
- bod gan yr endid 28 diwrnod i dalu ar ôl cael yr hysbysiad
- os na wneir taliad o fewn 28 diwrnod i gael hysbysiad bydd taliadau talu'n hwyr yn gymwys
- hawliau apelio
- canlyniadau peidio â thalu, fel adennill dyledion sifil

4.74 Gall y sefydliad neu'r unigolyn dan sylw wneud apêl mewn perthynas â'n penderfyniad i'r Uchel Lys (neu'r Siryf yn yr Alban).

Sut i wneud cynrychioliadau ac apeliadau yn erbyn sancsiynau

4.75 Nodir y broses o osod sancsiwn yn Neddf 2009 a rhydd gyfleoedd i wneud cynrychioliadau ac apeliadau yn erbyn sancsiynau. Gall endid a reoleiddir gyflwyno cynrychioliadau i ni ar ôl cael hysbysiad cychwynnol sy'n nodi ein bwriad i osod sancsiwn. Mae Deddf 2009 yn nodi mai 28 diwrnod fan bellaf a ganiateir i wneud cynrychioliadau ar ôl cael hysbysiad cychwynnol ar gyfer cosb ariannol benodedig. Fodd bynnag, yn ein barn ni, cynigiwn fod 14 diwrnod yn fwy priodol ar gyfer endid a reoleiddir. Fel rhan o'r cynnig hwn

[14] Gellir defnyddio hysbysiad atal i weithredu heb brawf fod y gyfraith wedi cael ei thorri. Gallwn ddefnyddio hysbysiad atal mewn perthynas ag achos difrifol o dorri'r gyfraith sydd ar fin digwydd. Mae angen trothwy uchel lle mae'n rhaid dangos bod perygl mawr o ddigwyddiad a fyddai'n cael effaith niweidiol ddifrifol ar hyder y cyhoedd yn effeithiolrwydd y gyfundrefn reoleiddio. Dim ond sail resymol dros gredu bod unigolyn wedi cyflawni trosedd sydd ei hangen i dderbyn ymgymeriad gorfodi a gynigir. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod ymgymeriad gorfodi yn fodd i endid a reoleiddir gynnig camau y bydd yn eu cymryd i wneud iawn am dorri'r gyfraith. Gall y Comisiwn ddewis derbyn ymgymeriad ai peidio, a chaiff y meini prawf a ddefnyddir gennym eu hamlinellu ym mharagraff 4.66.

[15] Mae Deddf 2009 yn darparu ar gyfer gostyngiadau am dalu'n gynnar sy'n debyg i'r darpariaethau sancsiwn sifil yn y Ddeddf Gorfodi Rheoleiddio a Sancsiynau. Nid yw'r Comisiwn yn bwriadu rhoi gostyngiadau am dalu'n gynnar.

byddwn hefyd yn ystyried ymestyn y cyfnod hwn hyd at 14 diwrnod ychwanegol y darperir ar ei gyfer yn y ddeddfwriaeth. Mae Deddf 2009 yn nodi bod yn rhaid i ni ganiatáu o leiaf 28 diwrnod i endid a reoleiddir wneud cynrychioliadau ar ôl cael gofyniad dewisol. Credwn fod 28 diwrnod yn briodol i endid a reoleiddir wneud cynrychioliadau ar ôl cael gofyniad dewisol. Cynigiwn hefyd y dylid cynnwys darpariaeth i ymestyn y cyfnod hwn pan fo gan endid a reoleiddir reswm da dros fod angen mwy o amser. Yn ein barn ni bydd hyn yn rhoi digon o amser i endidau a reoleiddir ymateb i faterion sy'n fwy cymhleth nag achosion syml o dorri rheolau gweinyddol.

4.76 Caiff cynrychioliadau eu hystyried gan uwch aelod o staff y Comisiwn nad yw'n ymwneud â'r achos, cyn i'r Comisiwn wneud ei benderfyniad terfynol ynghylch a ddylai fwrw ymlaen â'r sancsiwn dan sylw.

4.77 Os byddwn yn penderfynu bwrw ymlaen â'r sancsiwn neu ffurf ddiwygiedig arno, gall yr endid a reoleiddir wneud apêl yn erbyn y penderfyniad i'r Llys Sirol (neu'r Siryf yn yr Alban).

4.78 Yn achos hysbysiad atal, gellir gwneud apêl i'r Llys Sirol (neu'r Siryf yn yr Alban) yn erbyn y penderfyniad i roi hysbysiad atal, neu gellir apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y Comisiwn i beidio â rhoi hysbysiad cwblhau.

Gwybodaeth i'r cyhoedd am ein gwaith gorfodi a gosod sancsiynau

4.79 Manylir ar ddull y Comisiwn o ddatgelu a chyhoeddi gwybodaeth am weithgarwch gorfodi o'r adeg y daw honiad i law i'r adeg y gosodir sancsiynau yn Atodiad Dd. Yn gryno:

- Byddwn yn hysbysu'r achwynydd bod yr honiad wedi dod i law. Ni fyddwn yn hysbysu'r unigolyn dan sylw nac unrhyw un arall ein bod yn ystyried mater tan ein bod wedi cynnal ein hasesiad cychwynnol a fydd yn cymryd hyd at bum diwrnod fel arfer. Os oes angen mwy na phum diwrnod byddwn yn hysbysu'r unigolyn dan sylw bod cwyn wedi cael ei gwneud a'n bod yn asesu'r mater. Byddwn yn hysbysu'r unigolyn neu'r unigolion sy'n destun honiadau o holl ganlyniadau asesiadau cychwynnol.
- Os byddwn yn cael ymholiad gan y cyfryngau yn ystod yr asesiad cychwynnol byddwn yn hysbysu'r sawl y mae a wnelo'r gŵyn ag ef ac yn cadarnhau y byddwn yn cysylltu â hwy ar ôl i'r asesiad cychwynnol gael ei gwblhau. Byddwn yn hysbysu'r cyfryngau bod honiad wedi dod i law.
- Byddwn yn hysbysu'r partïon dan sylw pan agorwn achos a adolygir. Ni fyddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod achos yn cael ei adolygu. Byddwn yn cydnabod bod achos yn cael ei adolygu, os bydd y cyfryngau yn gofyn am hynny'n benodol, a byddwn yn hysbysu'r unigolyn dan sylw o'r ymholiad cychwynnol gan y cyfryngau.
- Pan fyddwn yn lansio ymchwiliad hysbysir y partïon dan sylw a byddwn yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ac yn rhoi gwybodaeth ar ein gwefan, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny (fel y posibilrwydd o gael effaith niweidiol ar yr ymchwiliad). Byddwn hefyd yn hysbysu'r

partïon dan sylw, yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ac yn rhoi gwybodaeth ar ein gwefan ar ddiwedd ymchwiliad yn rhoi gwybod am y canlyniad, rhesymeg y Comisiwn dros ei benderfyniadau ac unrhyw sancsiwn a osodwyd. Gwneir hyn ar ôl i'r cyfnod apelio ddod i ben.

- Os cyfeirir achos i'r heddlu neu os ceir erlyniad, ymgyfreitha sifil (fel camau fforffedu) neu os rhoddir cosb sifil byddwn bob amser yn rhoi gwybod am hynny drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg a rhoi gwybodaeth ar ein gwefan.

4.80 Yn ogystal â'n polisi o hyrwyddo tryloywder drwy roi gwybod am ein gweithgarwch gorfodi a ddisgrifiwyd uchod, o dan Ddeddf 2009 mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i gyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol am ein defnydd o bwerau ymchwilio a sancsiynau sifil.

4.81 Bwriadwn gyflawni'r rhwymedigaeth hon drwy gyhoeddi gwybodaeth berthnasol yn yr adroddiad blynyddol a roddir gennym i'r Senedd. Bydd y wybodaeth hon yn cynnwys:

- ystadegau ar nifer yr adolygiadau o achosion (nad ydynt yn cynnwys defnyddio ein pwerau ymchwilio statudol) ac ymchwiliadau a gynhaliwyd gennym a faint ohonynt a arweiniodd at sancsiynau neu benderfyniad i beidio â chymryd camau pellach, gydag adroddiadau cryno (yn llawn neu'n ddienw fel y bo'n briodol, er enghraifft lle na roddwyd cyhoeddusrwydd i achos ac nid yw wedi'i gyhoeddi, dim ond gwybodaeth ddienw a gyhoeddir gennym).
- ystadegau ar nifer yr hysbysiadau datgelu a roddwyd (at ddibenion goruchwylio ac ymchwilio), yr eiddo a arolygwyd mewn perthynas â gweithgareddau goruchwylio, y cyfweliadau a gynhaliwyd, a cheisiadau i'r Uchel Lys am orchmynion datgelu, y gorchmynion datgelu a roddwyd, gan gyfeirio at atodiad o adroddiadau cryno (yn llawn neu'n ddienw)
- ystadegau ar nifer y sancsiynau a osodwyd ac nas diddymwyd yn dilyn apêl, gan gynnwys cosbau ariannol penodedig, gofynion dewisol, yr hysbysiadau atal a roddwyd, a'r ymgymeriadau gorfodi a dderbyniwyd, gan gyfeirio at atodiad o adroddiadau cryno
- ystadegau ar nifer yr achosion a gyfeiriwyd i'r heddlu, erlyniadau, a'r defnydd o gamau fforffedu

Cwestiwn yr ymgynghoriad

C14. A ydych yn cytuno â'r dull hwn o gyhoeddi? Yn eich barn chi, a oes unrhyw amgylchiadau lle y dylem gyhoeddi mwy na gwybodaeth ddi-enw am achosion lle na thorrwyd y gyfraith?

C15 O dan Ddeddf 2009 rhaid i ni gyhoeddi manylion am ein gweithgarwch gosod sancsiynau bob blwyddyn. Croesawn sylwadau ar ba mor fanwl y dylem fod yn ein hadroddiad blynyddol am achosion unigol lle y gosodwyd sancsiynau gennym.

5 Rhestr o'r termau a ddefnyddir yn y papur hwn

Achosion o dorri'r rheolau	Achos o dorri gofyniad a ragnodir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 nad yw'n drosedd
Adolygiad	Ystyried achos lle yr ymddengys na fydd angen cynnal cyfweliadau ffurfiol na defnyddio pwerau statudol
Asesiad cychwynnol	Asesu mater newydd er mwyn penderfynu sut y bydd yn mynd rhagddo os o gwbl
Asesu risg	Proses i bennu'r risg reoleiddiol yr ymddengys fod sefydliad yn ei hwynebu, o gymharu â'r sefydliadau eraill
Cosb ariannol amrywiadwy	Dirwy a bennir ar lefel briodol sy'n adlewyrchu difrifoldeb y drosedd.
Cosb ariannol benodedig	Dirwy benodedig a ragnodir gan yr Ysgrifennydd Gwladol
Cyfranogwr a ganiateir	Unrhyw grwpiau ymgyrchu, gan gynnwys pleidiau gwleidyddol, sy'n bwriadu gwario mwy na £10,000 ar ymgyrch refferendwm
Cymdeithas aelodau	Sefydliad sy'n cynnwys aelodau plaid wleidyddol sy'n ymwneud â gweithgareddau gwleidyddol yn gyfan gwbl neu yn bennaf
Cynrychioliadau	Y rhesymau a roddir gan y sawl sy'n cael hysbysiad cychwynnol sy'n nodi pam y dylai sancsiwn gael ei addasu neu pam na ddylai gael ei osod
Derbynwyr rheoledig	Mae derbynwyr rheoledig yn: • Aelodau o bleidiau gwleidyddol cofrestredig • Deiliaid swyddi etholedig perthnasol • Cymdeithasau aelodau Maent yn ddarostyngedig i reolaethau ar y rhoddion a'r benthyciadau y gallant eu derbyn mewn cysylltiad â'u gweithgareddau gwleidyddol
Endid a reoleiddir	Unigolyn, grŵp, sefydliad, plaid wleidyddol ac ati a reoleiddir o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
Gofyniad dewisol	Amrywiaeth o sancsiynau sifil, sy'n cynnwys cosbau ariannol amrywiadwy, gofynion cydymffurfio, a gofynion gwneud iawn. Gall y

	sancsiynau hyn gael eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd
Gorchymyn datgelu	Hysbysiad a roddir gan y Comisiwn sy'n gofyn am ddogfennau, gwybodaeth neu esboniad
Gweithgarwch gorfodi	Ystyried achos drwy gynnal adolygiad neu ymchwiliad a all arwain at sancsiwn
Hysbysiad atal	Hysbysiad a roddir i endid a reoleiddir sy'n ei gwneud yn ofynnol rhoi'r gorau i weithgaredd
Hysbysiad cychwynnol	Hysbysiad sy'n cynnwys y rhesymau dros osod sancsiwn sifil a'r gosb
Hysbysiad cydymffurfio	Hysbysiad sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd fel nad yw'r drosedd yn parhau nac yn cael ei chyflawni eto
Hysbysiad datgelu	Gorchymyn llys sy'n ei gwneud yn ofynnol cyflwyno dogfennau neu roi gwybodaeth neu esboniad
Hysbysiad gwneud iawn	Hysbysiad sy'n nodi'r camau y mae'n rhaid eu cymryd i adfer y sefyllfa, i'r graddau y bo'n bosibl, fel y bo'n cyfateb i'r hyn a fyddai wedi bodoli pe na fyddai unrhyw drosedd wedi'i chyflawni
Hysbysiad terfynol	Hysbysiad sy'n gosod y sancsiwn terfynol. Fe'i rhoddir ar ôl ystyried cynrychioliadau neu ar ôl i gyfnod penodedig o amser ddod i ben
Rhagnodedig	Rhoi gwybodaeth ychwanegol mewn gorchymyn a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n atodol i'r ddeddfwriaeth wreiddiol
Trydydd parti	Unigolyn neu sefydliad nad yw'n sefyll mewn etholiad nac yn cyflwyno ymgeiswyr ynddo, ond sy'n ymgyrchu ar ran neu yn erbyn plaid wleidyddol, pleidiau neu gategori o ymgeiswyr mewn etholiad
Tystysgrif gwblhau	Tystysgrif a roddir pan gydymffurfir â hysbysiad atal
Tystysgrif gydymffurfio	Tystysgrif a roddir pan gydymffurfir â hysbysiad cydymffurfio neu wneud iawn
Ymchwiliad	Ystyried achos lle yr ymddengys y bydd angen cynnal cyfweliadau ffurfiol neu ddefnyddio pwerau statudol
Ymgymeriad gorfodi	Cytundeb a gynigir gan endid a reoleiddir i gymryd camau penodedig i wneud iawn am

Atodiad A – Meini prawf ar gyfer proffilio risg ac effaith

Mae'r atodiad hwn yn nodi'r meini prawf arfaethedig i'w defnyddio wrth broffilio risg ac effaith sefydliadau a reoleiddir, fel y disgrifiwyd ym Mhennod 3 - Egwyddorion ein gwaith rheoleiddio sy'n seiliedig ar risg - yn y papur hwn.

Cofnodion ariannol a chydymffurfio

Cofnodion cydymffurfio

Mae'r categori hwn yn gwerthuso hanes y blaid o gydymffurfio â gofynion Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000). Meini prawf:

- peidio â chyflwyno cyfrifon na ffurflenni statudol eraill yn y tair blynedd diwethaf
- cyflwyno datganiadau o gyfrifon yn hwyr yn y tair blynedd diwethaf
- cyflwyno ffurflenni rhoddion neu fenthyciadau chwarterol yn hwyr yn y tair blynedd diwethaf
- cyflwyno ffurflenni gwariant ymgyrchoedd yn hwyr yn y tair blynedd diwethaf
- cyflwyno ffurflenni rhoddion neu fenthyciadau wythnosol yn hwyr [dim ond yn gymwys ar gyfer y flwyddyn archwilio y cyflwynwyd y ffurflenni ynddi]
- rhoi gwybod am roddion neu fenthyciadau unigol yn hwyr yn y flwyddyn ddiwethaf
- tystiolaeth a ategir o achosion eraill o ddiffyg cydymffurfio â gofynion ariannol Deddf 2000 yn y tair blynedd diwethaf, gan gynnwys unrhyw sancsiynau a osodwyd gan y Comisiwn.
- cyflwyno cadarnhad blynyddol o fanylion cofrestru yn hwyr yn y tair blynedd diwethaf [llai o bwys]
- achosion lle nad oedd manylion cofrestru yn gyfredol yn y tair blynedd diwethaf [llai o bwys]

Data ariannol

Mae'r categori hwn yn gwerthuso data allweddol o ddatganiadau blynyddol o gyfrifon, ac mae hefyd yn cofrestru arian cyhoeddus a ddaeth i law gan y Comisiwn. Meini prawf:

- trosiant a gofnodwyd
- lefel y ddyled neu arian parod dros ben fel canran o'r incwm blynyddol[16]
- anghywirdeb perthnasol yn y cyfrifon yn y tair blynedd diwethaf[17]

[16] Mae'r cymarebau hyn yn tynnu sylw at sefyllfaoedd ariannol lle y gallai fod angen rhoi mwy o sylw nag arfer i ffurflenni statudol y sefydliad a reoleiddir, er enghraifft am eu bod yn debygol o arwain at fwlch rhwng lefel y rhoddion a gofnodwyd a lefel debygol y gwariant ar ymgyrchu yn ystod cyfnodau a reoleiddir.

- cael grantiau datblygu polisi (arian cyhoeddus) gan y Comisiwn[18]

Graddfa weithredol

Mae'r categori hwn yn asesu cymhlethdod y blaid, gan nodi dangosyddion sy'n gofyn am fwy o drefniadaeth. Meini prawf:

- nifer yr unedau cyfrifyddu
- a fu'n ofynnol i'r sefydliad gyflwyno ffurflenni rhoddion a benthyciadau chwarterol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, h.y. nad yw wedi'i eithrio am nad yw wedi cael rhoddion a benthyciadau
- nifer yr etholiadau neu isetholiadau perthnasol[19] a gafodd eu sefyll yn y tair blynedd diwethaf

Llywodraethu a ffactorau allanol

Proffil cyhoeddus

Meini prawf:

- yn cynrychioli corff etholedig neu'n meddu ar bŵer ynddo (Senedd y DU, senedd neu gynulliad datganoledig, Senedd Ewrop, cynulliad neu gyngor rhanbarthol neu leol)
- proffil uchel adeg cofrestru, e.e. sylfaenwyr neu arianwyr amlwg[20]

Llywodraethu a gallu ac adnoddau

Meini prawf:

- mae'r broses o gofrestru â'r Comisiwn yn dynodi mai prin yw'r gallu a'r adnoddau i gydymffurfio â gofynion rheoliadol yn y dyfodol
- seilwaith cydymffurfio (e.e. cofnodion, systemau, staff) nad yw'n ddigonol i ymdrin â graddau'r gwaith o godi arian
- newid strwythurol sylweddol (e.e. rhwyg mewn plaid neu uno pleidiau), newid sydyn mewn arweinyddiaeth Seneddol neu sefydliadol, newid i drefniadau llywodraethu
- newid sylweddol mewn polisi neu ddulliau ymgyrchu neu godi arian a all effeithio ar ffynonellau neu lefelau ariannu

---

[17] Gallai hyn gynnwys cyfrifon sy'n cael eu cymhwyso gan archwiliwr, ond nid yw'n gyfyngedig i hynny.

[18] Os na fydd plaid a gaiff arian cyhoeddus yn cydymffurfio mae hyn yn debygol o gael effaith sylweddol. Mae'r Comisiwn yn archwilio pawb sy'n cael grant datblygu polisi ganddo.

[19] Mae etholiadau neu isetholiadau perthnasol yn cyfeirio at y rhai ar gyfer Senedd Ewrop, Senedd y DU, Senedd yr Alban, Cynulliad Cymru neu Gynulliad Gogledd Iwerddon.

[20] Gall hyn ddynodi bod y sefydliad wedi cael cryn dipyn o roddion cyn dod yn destun gofynion Deddf 2000

Ffactorau allanol

Meini prawf:

- newidiadau yn yr amgylchedd allanol a all effeithio ar ffynonellau neu lefel ariannu'r sefydliad

Atodiad B – Cosbau ariannol penodedig

Disgrifiad

Bydd y lefelau dirwyon a'r cyfnodau o amser (yn amodol ar gyfyngiadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009) a amlinellir isod yn dibynnu ar yr argymhellion a wnawn i'r Llywodraeth yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Mater i'r Llywodraeth fydd gwneud y penderfyniadau terfynol.

Defnyddir cosb ariannol benodedig (CAB) ar gyfer lefelau isel o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol. Pan fyddwn yn fodlon y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod trosedd wedi cael ei chyflawni neu fod achos o dorri rheolau rhagnodedig wedi digwydd, gallwn roi CAB ar ffurf hysbysiad i:

- unigolyn
- plaid gofrestredig
- cyfranogwr a ganiateir

Troseddau cyfnod penodol

Cynigiwn y dylid defnyddio CAB pan gyflawnwyd trosedd 'cyfnod penodol' fel:

- peidio â chyflwyno datganiadau o gyfrifon (DoG) ar amser
- peidio â chyflwyno adroddiadau ar roddion i'r Comisiwn ar amser
- peidio â chyflwyno adroddiadau ar drafodion i'r Comisiwn o fewn y terfynau amser
- peidio â chyflwyno ffurflenni gwariant ymgyrchoedd ac adroddiadau archwilwyr i'r Comisiwn

Os caiff y dogfennau angenrheidiol eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad yr oedd eu hangen, rhoddir CAB o £200.

Os na chaiff y ddogfennaeth ofynnol ei chyflwyno o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad angenrheidiol byddwn yn ystyried bod yr achos hwn o dorri'r rheolau yn drosedd fwy sylweddol a bydd y sancsiynau a osodir yn newid i fod yn un neu fwy o ofynion dewisol fel y nodir yn Atodiad C.

Achosion o dorri'r rheolau

Bydd torri Adran 31 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000), sy'n ymwneud â methiant trysorydd cofrestredig i hysbysu'r Comisiwn o newidiadau i swyddogion plaid wleidyddol neu fanylion perthnasol eraill, yn arwain at CAB o £200. Bydd y broses yn dechrau drwy gyflwyno hysbysiad cychwynnol fel y nodir isod. Cynigir y dylai achosion o beidio â bodloni gofynion Adran 41 sy'n ymwneud â rhwymedigaethau trysoryddion cofrestredig i gadw a chynnal cyfrifon gael CAB neu fod yn destun gofyniad dewisol hefyd. Er nad yw achosion o dorri Adran 41 yn rhai 'cyfnod penodol', bydd CAB o £200 yn parhau i fod yn opsiwn ar gyfer gosod sancsiwn, yn dibynnu ar ffeithiau'r achos.

Proses

Pan ddaw'r terfyn amser ar gyfer cydymffurfio i ben, byddwn yn ysgrifennu at yr endid a reoleiddir i'w hysbysu o'r canlynol:

- bod y ffurflen statudol yn hwyr
- y gall fod angen i'r endid dalu dirwy
- faint o CAB a allai fod yn daladwy os cyflwynir y dogfennau o fewn terfynau amser penodol
- y gall gofynion dewisol mwy difrifol fod yn gymwys os na chaiff y sefyllfa ei hunioni o fewn y terfynau amser CAB

Os caiff y dogfennau gofynnol eu cyflwyno o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad angenrheidiol

Hysbysiad cychwynnol
Ar ôl cael y ddogfennaeth ofynnol, byddwn yn rhoi hysbysiad cychwynnol i'r endid a reoleiddir yn nodi ein bwriad i roi CAB. Bydd yr hysbysiad cychwynnol yn nodi'r canlynol:

- y rheswm dros y CAB arfaethedig
- y swm sy'n daladwy i gyflawni'r rhwymedigaeth am y CAB, a gaiff ei bennu ar lefel sy'n cyfateb i'r CAB
- y bydd talu'r swm yn golygu y cyflawnir y rhwymedigaeth
- o dan ba amgylchiadau na chawn roi CAB, er enghraifft pan fo gan yr endid reswm dilys
- y ffaith bod gan yr endid 14 diwrnod ar ôl iddo gael yr hysbysiad cychwynnol i dalu neu wneud cynrychioliadau ac y caiff unrhyw geisiadau i ymestyn y cyfnod hwn eu hystyried fesul achos
- manylion am sut i dalu neu wneud cynrychioliadau

Talu'r swm gofynnol
Rhoddir manylion am sut i gyflawni'r rhwymedigaeth yn yr hysbysiad o dan 'Sut i dalu'

Cynrychioliadau
O fewn 14 diwrnod i gael yr hysbysiad cychwynnol (neu unrhyw gyfnod estynedig fel y cytunwyd arno), byddwn yn ystyried cynrychioliadau a wneir yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cynrychioliadau ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Caiff unrhyw gynrychioliadau neu wrthwynebiadau eu hystyried gan un o uwch swyddogion y Comisiwn nad oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad cychwynnol ynghylch a ddylid rhoi CAB ai peidio.

Byddwn yn ystyried unrhyw gynrychioliadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu cael.

Ar ôl ystyried cynrychioliadau, byddwn naill ai:

- yn cadarnhau ac yn rhoi'r CAB ar ffurf hysbysiad terfynol, neu
- yn ysgrifennu at yr endid i gadarnhau bod y mater wedi dod i ben ac na fyddwn yn cymryd camau pellach

Hysbysiad terfynol
Os na wneir unrhyw gynrychioliadau na cheisiadau am estyniad o fewn 14 diwrnod i gael yr hysbysiad cychwynnol, neu os caiff y CAB ei chadarnhau ar ôl derbyn cynrychioliadau, byddwn yn rhoi hysbysiad terfynol sy'n nodi'r gosb a roddir.

Bydd yr hysbysiad terfynol yn nodi'r canlynol:

- y rheswm dros roi'r CAB
- sut i dalu
- bod gan yr endid 28 diwrnod i dalu ar ôl cael yr hysbysiad terfynol
- os na wneir taliad o fewn 28 diwrnod bydd taliadau talu'n hwyr yn gymwys
- hawliau apelio
- canlyniadau peidio â thalu, fel adennill dyledion sifil

Os na chaiff y ddogfennaeth ofynnol ei chyflwyno o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad angenrheidiol

Os na chaiff y ddogfennaeth ofynnol ei chyflwyno o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad angenrheidiol byddwn yn ystyried bod yr achos hwn o dorri'r rheolau yn drosedd fwy sylweddol a bydd sancsiynau a osodir yn newid i fod yn un neu fwy o ofynion dewisol fel y nodir yn Atodiad C.

Ar ôl 28 diwrnod i'r dyddiad angenrheidiol byddwn yn rhoi hysbysiad cychwynnol i'r endid sy'n nodi ein cynigion ar gyfer lefelau unrhyw gosb ariannol amrywiadwy ac unrhyw ofynion dewisol eraill.

Ceir manylion y broses gofynion dewisol yn Atodiad C.

Sut i dalu

Rhoddir gwybodaeth am sut i dalu yn yr hysbysiad.

Taliadau talu'n hwyr a chanlyniadau peidio â thalu

Y diwrnod ar ôl y dyddiad y dylid bod wedi talu'r gosb fan bellaf (28 diwrnod calendr ar ôl rhoi'r hysbysiad terfynol), caiff ffi talu'n hwyr o 25% o'r gosb wreiddiol ei hychwanegu at swm y gosb wreiddiol.

Y diwrnod ar ôl i 56 diwrnod calendr fynd heibio ers rhoi'r hysbysiad terfynol ac na chafwyd unrhyw daliad na chynrychioliadau, caiff ffi o 50% o'r gosb wreiddiol ei hychwanegu at swm y gosb wreiddiol.

Gallwn gymryd camau adennill dyledion sifil os na chafwyd unrhyw daliad na chynrychioliad ar ôl 84 diwrnod calendr i'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad terfynol.

Apeliadau

Caiff yr endid apelio i'r Uchel Lys (neu'r Siryf yn yr Alban) yn erbyn hysbysiad terfynol ar y sail ei fod yn seiliedig ar wall ffeithiol, ei fod yn anghywir yn gyfreithiol, neu ei fod yn afresymol.

Achosion troseddol ac effaith cyflawni rhwymedigaeth

Ni chawn fynd ati i ddwyn achos troseddol am yr achos o dorri'r gyfraith y rhoddwyd hysbysiad amdano hyd nes i'r cyfnod ar gyfer cyflawni rhwymedigaeth ddod i ben.

Os cyflawnwyd y rhwymedigaeth, ni ellir collfarnu unigolyn am y drosedd honno.

Ar ôl i ni roi CAB, ni all unigolyn, ar unrhyw adeg, gael ei gollfarnu am y drosedd a arweiniodd at y CAB.

Atodiad C - Gofynion dewisol

Disgrifiad

Bydd y lefelau dirwyon a'r cyfnodau o amser (yn amodol ar gyfyngiadau Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009) a amlinellir isod yn dibynnu ar yr argymhellion a wnawn i'r Llywodraeth yn dilyn yr ymgynghoriad hwn. Mater i'r Llywodraeth fydd gwneud y penderfyniadau terfynol.

Mae gofynion dewisol yn becyn o sancsiynau y gallwn eu gosod yn unigol neu gyda'i gilydd. Byddwn yn eu defnyddio mewn ymateb i lefelau canolig i uchel o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol.

Pan fyddwn yn fodlon y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod trosedd wedi cael ei chyflawni neu fod achos o dorri rheolau rhagnodedig wedi digwydd, gallwn roi un neu fwy o ofynion dewisol ar ffurf hysbysiad i:

- unigolyn
- plaid gofrestredig
- trydydd parti cydnabyddedig
- cyfranogwr a ganiateir

Gallwn ddefnyddio unrhyw gyfuniad o'r tri gofyniad dewisol canlynol a bydd amgylchiadau unigol pob achos yn pennu'r cyfuniad mwyaf effeithiol.

1. Caiff **cosbau ariannol amrywiadwy** (CAAau) eu pennu ar lefel sy'n dileu unrhyw fudd ariannol a ddeilliodd o gyflawni'r drosedd ac maent yn ystyried ffactorau fel difrifoldeb y methiant a hanes cydymffurfio. Byddant yn £500 o leiaf i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhyngddynt a chosbau ariannol penodedig lefel is.

2. Defnyddir **hysbysiadau cydymffurfio** i sicrhau'r camau y mae angen i endid a reoleiddir eu cymryd i gydymffurfio unwaith eto, er enghraifft, drwy newid proses neu roi hyfforddiant.

3. Defnyddir **hysbysiadau gwneud iawn** i sicrhau bod endid a reoleiddir yn ymdrin â chanlyniadau'r drosedd drwy adfer sefyllfa pawb dan sylw i'r hyn a fyddai wedi bodoli pe na bai'r drosedd wedi cael ei chyflawni i'r graddau sy'n bosibl.

Proses

Pan fyddwn yn fodlon y tu hwnt i unrhyw amheuaeth resymol fod trosedd wedi cael ei chyflawni neu fod achos o dorri rheolau rhagnodedig wedi digwydd, gallwn roi hysbysiad cychwynnol sy'n nodi ein bwriad i gyflwyno un neu fwy o ofynion dewisol.

Hysbysiad cychwynnol

5.1 Bydd yr hysbysiad cychwynnol yn nodi'r canlynol:

- y rheswm dros gyflwyno'r gofyniad/gofynion dewisol arfaethedig
- swm unrhyw CAA arfaethedig
- amodau unrhyw ofynion cydymffurfio neu wneud iawn arfaethedig
- y ffaith bod gan yr endid 28 diwrnod ar ôl cael yr hysbysiad cychwynnol i wneud cynrychioliadau ac y caiff unrhyw geisiadau i ymestyn y cyfnod hwn eu hystyried fesul achos
- manylion am sut i wneud cynrychioliadau
- o dan ba amgylchiadau na chawn gyflwyno gofyniad dewisol, er enghraifft pan fo gan yr endid reswm dilys
- canlyniadau peidio â thalu neu ddiffyg cydymffurfio

Cynrychioliadau

O fewn 28 diwrnod i gael yr hysbysiad cychwynnol (neu unrhyw gyfnod estynedig fel y cytunwyd arno), byddwn yn ystyried cynrychioliadau a wneir yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cynrychioliadau ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Caiff unrhyw gynrychioliadau neu wrthwynebiadau eu hystyried gan un o uwch swyddogion y Comisiwn nad oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad cychwynnol ynghylch a ddylid cyflwyno gofyniad dewisol ai peidio.

Byddwn yn ystyried unrhyw gynrychioliadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu cael.

Ar ôl ystyried cynrychioliadau, byddwn naill ai:

- yn cadarnhau a chyflwyno'r gofyniad/gofynion dewisol ar ffurf hysbysiad terfynol, neu
- yn diwygio'r gofyniad/gofynion dewisol neu'n yflwyno gofyniad dewisol arall/gofynion dewisol eraill, neu
- yn ysgrifennu at yr endid i gadarnhau bod y mater wedi dod i ben ac na fyddwn yn cymryd camau pellach

Hysbysiad terfynol

Os na wneir unrhyw gynrychioliadau na cheisiadau am estyniad o fewn 28 diwrnod i gael yr hysbysiad cychwynnol, neu os y caiff y gofyniad/gofynion dewisol eu cadarnhau, eu diwygio neu eu hamnewid yn dilyn cynrychioliadau, byddwn yn rhoi hysbysiad terfynol sy'n nodi'r gosb a roddir.

Bydd yr hysbysiad terfynol yn nodi'r canlynol:

- y rheswm dros gyflwyno'r gofyniad dewisol
- sut i dalu unrhyw CAA

- bod gan yr endid 28 diwrnod i dalu
- os na thelir CAA o fewn 28 diwrnod i gael hysbysiad bydd taliadau talu'n hwyr yn gymwys
- os na chydymffurfir â thelerau unrhyw hysbysiad cydymffurfio neu wneud iawn o fewn y terfyn amser penodedig gellir rhoi cosb am beidio â chydymffurfio
- hawliau apelio
- canlyniadau peidio â thalu neu gydymffurfio, fel adennill dyledion sifil neu gosb diffyg cydymffurfio

Cau mater

Byddwn yn ysgrifennu at yr endid dan sylw i gadarnhau bod y mater wedi'i gau unwaith y bydd yr holl ofynion dewisol a gyflwynwyd wedi cael eu bodloni.

Taliadau talu'n hwyr a chanlyniadau peidio â thalu a pheidio â chydymffurfio â hysbysiad

Cosbau ariannol amrywiadwy
Y diwrnod ar ôl y dyddiad y dylid bod wedi talu'r gosb fan bellaf (28 diwrnod calendr ar ôl rhoi'r hysbysiad terfynol), caiff ffi talu'n hwyr o 25% o'r gosb wreiddiol ei hychwanegu at swm y gosb wreiddiol.

Y diwrnod ar ôl i 56 diwrnod calendr fynd heibio ers rhoi'r hysbysiad terfynol ac na chafwyd unrhyw daliad na chynrychioliadau, caiff ffi o 50% o'r gosb wreiddiol ei hychwanegu at swm y gosb wreiddiol.

Gallwn gymryd camau i adennill dyledion sifil os na chafwyd taliad na chynrychioliadau 84 diwrnod calendr i'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad terfynol.

Hysbysiadau cydymffurfio a gwneud iawn
O ganlyniad i'r ystod eang o amodau posibl a all fod ynghlwm wrth hysbysiadau cydymffurfio a gwneud iawn, nid yw'n ymarferol rhagnodi cosbau diffyg cydymffurfio safonol a fyddai'n cwmpasu'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd posibl.

Fodd bynnag, byddwn yn rhoi manylion y gosb diffyg cydymffurfio yn yr hysbysiadau cychwynnol a therfynol. Er y bydd y gosb diffyg cydymffurfio yn briodol ac yn gymesur â'r gofynion yn yr hysbysiad, bydd y swm yn uwch na'r gost gydymffurfio a ragdybiwyd er mwyn cymell yr endid i gydymffurfio.

Apeliadau

Gall yr endid apelio yn erbyn hysbysiad terfynol i'r Uchel Lys (neu'r Siryf yn yr Alban).

Achosion troseddol

Nid oes modd i unigolyn sydd wedi cael gofyniad dewisol gael ei gollfarnu am y drosedd a arweiniodd at y gofyniad ar unrhyw adeg, ac eithrio pan fo'r gofyniad yn un anariannol ac nid yw'r unigolyn wedi cydymffurfio ag ef.

Cosbau ariannol amrywiadwy

Caiff cosbau ariannol amrywiadwy (CAAau) eu pennu ar lefel sy'n dileu unrhyw fudd ariannol a ddeilliodd o gyflawni'r drosedd ac maent yn ystyried ffactorau fel difrifoldeb y methiant a hanes cydymffurfio.

Mae CAAau yn debygol o gael eu defnyddio'n unigol ac ar y cyd â hysbysiadau cydymffurfio a gwneud iawn a byddant yn cwmpasu ystod eang o sefyllfaoedd. Byddwn yn ystyried rhoi CAA o dan yr amgylchiadau canlynol (er nad yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr):

- ymddengys fod yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn fwy na methiant gweinyddol syml
- mae'r achos o ddiffyg cydymffurfio yn fwriadol neu'n ddi-hid
- mae'n drosedd a gyflawnwyd o'r blaen neu mae hanes gwael o gydymffurfio
- lle na fyddai gwneud iawn am y sefyllfa neu ei gwneud yn ofynnol cymryd camau o dan hysbysiad gorfodi ynddo'i hun yn debygol o atal achosion pellach o ddiffyg cydymffurfio
- mae angen cael effaith ataliol mewn perthynas ag endidau eraill a reoleiddir

Proses

Nodir y prosesau ar gyfer yr hysbysiad cychwynnol, cynrychioliadau, yr hysbysiad terfynol a chau'r mater ar dudalennau 54-5 yn yr atodiad hwn.

Cyfrifo lefel y cosbau ariannol amrywiadwy

Gellir rhannu'r broses o gyfrifo lefel y CAA yn dri maes penodol:

- diffyg cydymffurfio ym maes trafodion ariannol
- diffyg cydymffurfio ym maes trafodion anariannol
- troseddau ag uchafswm dirwy statudol o £5,000 (gan gynnwys yr holl achosion rhagnodedig o dorri'r gyfraith)

Meini prawf difrifoldeb

5.2 Pa gategori bynnag o CAA sy'n gymwys, byddwn yn gyntaf yn asesu difrifoldeb yr achos o dorri'r gyfraith gan ystyried y meini prawf canlynol ymhlith eraill:

Yn erbyn:

- graddau'r achos o dorri'r gyfraith, er enghraifft y niwed a achosir i hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd, am ba hyd y bu diffyg cydymffurfio
- hanes o ddiffyg cydymffurfio o fewn yr endid a reoleiddir
- budd ariannol neu fantais arall i'r endid a reoleiddir neu eraill o ganlyniad i beidio â chydymffurfio â rheoliadau

- diffyg cydweithredu gan yr endid a reoleiddir ar ôl darganfod nad yw'n cydymffurfio
- heb lynu wrth gamau blaenorol gan y Comisiwn, neu reoleiddiwr arall, i helpu'r endid a reoleiddir i gydymffurfio
- anonestrwydd
- parhau i wadu'r ffeithiau er gwaethaf tystiolaeth glir i'r gwrthwyneb
- ceisio rhoi'r bai ar bobl eraill yn annheg

O blaid:

- hanes da o gydymffurfio cyn hynny
- camau wedi cael eu cymryd i ddileu neu ostwng y risg o niwed yn sgîl diffyg cydymffurfio rheoleiddiol
- rhoi gwybod am achosion o ddiffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn wirfoddol
- camau wedi cael eu cymryd i wneud iawn am y niwed a wnaed yn sgîl diffyg cydymffurfio rheoleiddiol
- cydweithio â'r Comisiwn wrth ymateb i'r diffyg cydymffurfio
- cred wirioneddol (er yn anghywir) nad oedd y camau dan sylw yn gyfystyr â thorri'r gofynion statudol, yn enwedig lle y lluniwyd barn o'r fath ar ôl cael cyngor priodol
- tystiolaeth a gaiff ei hategu i ddangos bod salwch wedi effeithio ar gamau gweithredu'r aelod
- cydnabod na lwyddwyd i ddilyn y gofynion statudol

Cyfrifo ariannol

Ar ôl asesu difrifoldeb yr achos o dorri'r gyfraith, cyfrifir lefel y CAA yn dibynnu gategori'r achos o
ddiffyg cydymffurfio. Mae gan y categorïau bedwar neu bum band (a ddewisir gan ddefnyddio'r meini prawf ar gyfer difrifoldeb) ac maent yn seiliedig ar system cyfran.

Bydd CAAau yn £500 o leiaf i adlewyrchu'r gwahaniaeth rhyngddynt a chosbau ariannol penodedig lefel is.

Diffyg cydymffurfio ym maes trafodion ariannol
Yn achos trafodion ariannol, bydd y CAA yn seiliedig ar werth y trafodyn.

Y pum band yw: 25%, 50%, 100%, 150%, a 200%.

Diffyg cydymffurfio ym maes trafodion anariannol
Yn achos trafodion anariannol, bydd y CAA yn seiliedig ar gyfanswm y rhoddion a gofnodwyd gan y blaid yn ystod y pedwar chwarter cyn y chwarter y digwyddodd yr achos o ddiffyg cydymffurfio ynddo. Os bydd llai na phedwar chwarter o roddion a gofnodwyd (fel yn achos plaid newydd), bydd y CAA yn seiliedig ar gyfanswm y rhoddion a gofnodwyd.

Y pum band yw 0.25%, 0.5%, 1%, 1.5%, a 2%.

Ar gyfer sefydliadau sy'n ymgyrchu fel trydydd partïon a reoleiddir a chyfranogwyr a ganiateir nad oes rhaid iddynt ein hysbysu o roddion yn barhaus, cyfrifir lefel y CAA hyd at 10% o derfyn perthnasol gwariant ymgyrchoedd. Bydd y swm a gyfrifir yn ystyried amgylchiadau'r achos o dorri'r gyfraith ac adnoddau'r sefydliad.

Troseddau ag uchafswm dirwy statudol o £5,000
Pan fydd gan drosedd neu achos o dorri'r rheolau uchafswm dirwy statudol o £5,000, caiff y CAA ei gapio ar £5,000, sef yr uchafswm.

Y pedwar band yw 10%, 25%, 50% a 100%.

Sut i dalu

Rhoddir gwybodaeth am sut i dalu yn yr hysbysiad terfynol.

Taliadau talu'n hwyr a chanlyniadau peidio â thalu

Y diwrnod ar ôl y dyddiad y dylid bod wedi talu'r gosb fan bellaf (28 diwrnod calendr ar ôl rhoi'r hysbysiad terfynol), caiff ffi talu'n hwyr o 25% o'r gosb wreiddiol ei hychwanegu at swm y gosb wreiddiol.

Y diwrnod ar ôl i 56 diwrnod calendr fynd heibio ers rhoi'r hysbysiad terfynol ac na chafwyd unrhyw daliad na chynrychioliadau, caiff ffi o 50% o'r gosb wreiddiol ei hychwanegu at swm y gosb wreiddiol.

Gallwn gymryd camau i adennill dyledion sifil os na chafwyd taliad na chynrychioliadau ar ôl 84 diwrnod calendr i'r dyddiad y rhoddwyd hysbysiad terfynol.

Hysbysiadau cydymffurfio

Bydd hysbysiad cydymffurfio yn nodi'r camau y mae angen i endid a reoleiddir eu cymryd i osgoi achosion o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol, er enghraifft, drwy newid proses neu roi hyfforddiant.

Mae hysbysiadau cydymffurfio yn debygol o gael eu defnyddio'n unigol ac ar y cyd â chosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau gwneud iawn a byddant yn cwmpasu ystod eang o sefyllfaoedd. Byddwn yn rhoi hysbysiad cydymffurfio os yw'r canlynol yn gymwys ymhlith ffactorau eraill:

- ceir camau clir a diffiniadwy y mae'n ymarferol ei gwneud yn ofynnol i'r endid a reoleiddir eu cymryd o fewn cyfnod rhagnodedig
- bydd y camau sy'n ofynnol gan yr hysbysiad cydymffurfio, os y'u cymerir, yn atal neu'n lleihau'r tebygolrwydd na fydd yr endid a reoleiddir yn cydymffurfio eto
- drwy gydymffurfio â'r hysbysiad caiff cywirdeb a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau eu gwella ymhellach

Proses

Nodir y prosesau ar gyfer yr hysbysiad cychwynnol, cynrychioliadau, yr hysbysiad terfynol a chau'r mater ar dudalennau 54-5.

Cydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio

Pan fydd endid a reoleiddir o'r farn ei fod wedi bodloni telerau'r hysbysiad cydymffurfio, dylai ein hysbysu o hynny gan roi gwybodaeth ategol fel y gallwn ystyried rhoi tystysgrif gydymffurfio iddo.

Gellir gwneud cais am dystysgrif gydymffurfio yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cais ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Byddwn yn ystyried unrhyw gais am dystysgrif gydymffurfio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei gael.

Rhoi tystysgrif gydymffurfio

Ar ôl cael cais am dystysgrif gydymffurfio, byddwn yn ystyried y dystiolaeth a roddwyd ac unrhyw gynrychioliadau a wnaed yn ystod unrhyw gyfweliad cyn rhoi tystysgrif gydymffurfio.

Os byddwn o'r farn bod endid a reoleiddir wedi bodloni telerau'r hysbysiad cydymffurfio, byddwn yn rhoi tystysgrif gydymffurfio i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â thelerau'r hysbysiad.

Gwrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio

Os byddwn, ar ôl ystyried cais am dystysgrif gydymffurfio, o'r farn nad yw'r endid wedi cydymffurfio â thelerau'r hysbysiad cydymffurfio, byddwn yn ysgrifennu at yr endid i'w hysbysu o'n penderfyniad ac yn rhoi cyngor ar y camau pellach y mae'n ofynnol eu cymryd i gydymffurfio.

Ar ôl i'r camau pellach hyn gael eu cymryd, bydd modd i'r endid wneud cais arall am dystysgrif gydymffurfio.

Apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi tystysgrif gydymffurfio

Pan fyddwn wedi gwrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio gall yr endid apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud apêl ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Caiff unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio ei hystyried gan un o uwch swyddogion y Comisiwn nad oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad cychwynnol i gyflwyno gofyniad dewisol, na'r penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio.

Byddwn yn ystyried unrhyw apêl cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei chael.

Ar ôl ystyried apêl, byddwn naill ai:

- yn cadarnhau y gwrthodir rhoi tystysgrif gydymffurfio ac yn ailddatgan, yn diwygio, neu'n nodi unrhyw gamau eraill y mae'n rhaid i'r endid eu cymryd i gydymffurfio â'r hysbysiad cydymffurfio, neu
- yn rhoi tystysgrif gydymffurfio

Diffyg cydymffurfio

O ganlyniad i'r ystod eang o amodau posibl a all fod ynghlwm wrth hysbysiad cydymffurfio, nid yw'n ymarferol rhagnodi cosbau diffyg cydymffurfio safonol a fyddai'n cwmpasu'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd posibl.

Fodd bynnag, byddwn yn rhoi manylion y gosb diffyg cydymffurfio yn yr hysbysiad cychwynnol. Er y bydd y gosb diffyg cydymffurfio yn briodol ac yn gymesur â'r gofynion yn yr hysbysiad, bydd y swm yn uwch na'r gost gydymffurfio a ragdybiwyd er mwyn cymell yr endid i gydymffurfio.

Hysbysiadau gwneud iawn

Defnyddir hysbysiad gwneud iawn i sicrhau bod endid a reoleiddir yn ymdrin â chanlyniadau'r drosedd drwy adfer sefyllfa pawb dan sylw i'r hyn a fyddai wedi bodoli pe na bai'r drosedd wedi cael ei chyflawni, i'r graddau sy'n bosibl.

Mae hysbysiadau gwneud iawn yn debygol o gael eu defnyddio'n unigol ac ar y cyd â chosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau cydymffurfio a byddant yn cwmpasu ystod eang o sefyllfaoedd. Byddwn yn rhoi hysbysiad gwneud iawn os yw'r canlynol yn gymwys ymhlith ffactorau eraill:

- mae'n ymarferol adfer y sefyllfa i'r hyn a oedd yn bodoli cyn yr achos o ddiffyg cydymffurfio, boed hynny'n gyfan gwbl neu'n rhannol
- drwy gydymffurfio â'r hysbysiad caiff cywirdeb a thryloywder cyllid pleidiau ac etholiadau eu gwella ymhellach

Proses

Nodir y prosesau ar gyfer yr hysbysiad cychwynnol, yr hysbysiad terfynol, cynrychioliadau, a chau'r mater ar dudalennau 54-5, ar gyfer cosbau ariannol penodedig.

Cydymffurfio â hysbysiad gwneud iawn

Pan fydd endid a reoleiddir o'r farn ei fod wedi bodloni telerau'r hysbysiad gwneud iawn, dylai wneud cais i ni am dystysgrif gydymffurfio.

Gellir gwneud cais am dystysgrif gydymffurfio yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cais ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Byddwn yn ystyried unrhyw gais am dystysgrif gydymffurfio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei gael.

Rhoi tystysgrif gydymffurfio

Ar ôl cael cais am dystysgrif gydymffurfio, byddwn yn ystyried y dystiolaeth a roddwyd i ategu'r cais ac unrhyw gynrychioliadau a wnaed yn ystod unrhyw gyfweliad cyn gwneud penderfyniad ynghylch rhoi tystysgrif gydymffurfio.

Os byddwn o'r farn bod endid wedi bodloni telerau'r hysbysiad gwneud iawn, byddwn yn rhoi tystysgrif gydymffurfio i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r hysbysiad.

Gwrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio

Os byddwn, ar ôl ystyried cais am dystysgrif gydymffurfio, o'r farn nad yw'r endid wedi cydymffurfio â thelerau'r hysbysiad gwneud iawn, byddwn yn

ysgrifennu at yr endid i'w hysbysu o'n penderfyniad i beidio â rhoi tystysgrif gydymffurfio ac yn rhoi cyngor ar y camau pellach y mae'n ofynnol eu cymryd i gydymffurfio â'r hysbysiad gwneud iawn.

Ar ôl i'r camau pellach hyn gael eu cymryd, bydd modd i endid wneud cais arall am dystysgrif gydymffurfio.

Apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi tystysgrif gydymffurfio

Pan fyddwn wedi gwrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio gall endid apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud apêl ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Caiff unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio ei hystyried gan un o uwch swyddogion y Comisiwn nad oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad cychwynnol i gyflwyno gofyniad dewisol, na'r penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio.

Byddwn yn ystyried unrhyw apêl cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei chael.

Ar ôl ystyried apêl, byddwn naill ai:

- yn cadarnhau y gwrthodir rhoi tystysgrif gydymffurfio ac yn ailddatgan, yn diwygio, neu'n nodi unrhyw gamau pellach y mae'n rhaid eu cymryd i gydymffurfio â'r hysbysiad gwneud iawn, neu
- yn rhoi tystysgrif gydymffurfio

Diffyg cydymffurfio

O ganlyniad i'r ystod eang o amodau posibl a all fod ynghlwm wrth hysbysiadau gwneud iawn, nid yw'n ymarferol rhagnodi cosbau diffyg cydymffurfio safonol a fyddai'n cwmpasu'r amrywiaeth eang o sefyllfaoedd posibl.

Fodd bynnag, byddwn yn rhoi manylion y gosb diffyg cydymffurfio yn yr hysbysiad cychwynnol. Er y bydd y gosb diffyg cydymffurfio yn briodol ac yn gymesur â'r gofynion yn yr hysbysiad, bydd y swm yn uwch na'r gost gydymffurfio a ragdybiwyd er mwyn cymell yr endid i gydymffurfio.

Atodiad Ch - Hysbysiadau atal

Disgrifiad

Gallwn roi hysbysiad atal i'w gwneud yn ofynnol i unigolyn roi'r gorau i weithgarwch sy'n peri risg ddifrifol o niweidio hyder y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd.

Mae angen cyrraedd trothwy uchel cyn cael hysbysiad atal, sy'n cynnwys y canlynol:

- mae'r unigolyn yn parhau i gyflawni'r gweithgarwch neu'n debygol o wneud hynny
- mae gennym sail resymol dros gredu bod y gweithgarwch a gyflawnir yn golygu, neu'n debygol o olygu, bod yr unigolyn yn cyflawni trosedd o dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (Deddf 2000) neu'n mynd yn groes i fesur atal neu ofyniad rhagnodedig a nodir yn Neddf 2000
- mae gennym sail resymol dros gredu y bydd y gweithgaredd a gyflawnir, neu sy'n debygol o gael ei gyflawni, gan yr unigolyn yn cael effaith niweidiol ddifrifol ar hyder yn y broses ddemocrataidd neu'n peri risg sylweddol o wneud hynny

Enghraifft 1
Daw'r Comisiwn yn ymwybodol o'r ffaith bod trydydd parti nad yw'n gydnabyddedig ar fin mynd y tu hwnt i derfynau gwario. Efallai y byddwn o'r farn ei bod yn briodol rhoi hysbysiad atal i'r trydydd parti (unigolyn/sefydliad) sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo beidio â mynd i fwy o gostau sydd dan reolaeth nes iddo gofrestru i ddod yn drydydd parti cydnabyddedig o dan Ddeddf 2000. Byddai'r hysbysiad atal hwn yn mynd i'r afael â'r achos o dorri'r rheolau mewn amser real.

Enghraifft 2
Daw'r Comisiwn yn ymwybodol o'r ffaith bod unigolyn yn mynd i gostau sydd dan reolaeth gan, neu ar ran, drydydd parti cydnabyddedig heb awdurdod y sawl sy'n gyfrifol. Efallai y byddwn o'r farn ei bod yn briodol rhoi hysbysiad atal i'r unigolyn nad yw'n cydymffurfio sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo beidio â mynd i fwy o gostau sydd dan reolaeth heb awdurdod y sawl sy'n gyfrifol. Unwaith eto, byddai'r hysbysiad atal hwn yn mynd i'r afael â'r achos o dorri'r rheolau mewn amser real.

Proses

Mewn amgylchiadau lle y cyrhaeddir y trothwy a nodwyd uchod, gallwn roi hysbysiad atal.

Bydd yr hysbysiad atal yn cynnwys:

- y rheswm dros roi'r hysbysiad

- yr hawl i apelio
- canlyniadau peidio â chydymffurfio â'r hysbysiad

Tystysgrif gwblhau

Ar unrhyw adeg ar ôl rhoi hysbysiad atal, gall endid wneud cais i ni am dystysgrif gwblhau sy'n dangos ei fod wedi cymryd y camau a nodwyd yn yr hysbysiad.

Gellir gwneud cais am dystysgrif gwblhau yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cais ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Ar ôl cael cais am dystysgrif gwblhau, byddwn yn ystyried y dystiolaeth a roddwyd i ategu'r cais ac unrhyw gynrychioliadau a wnaed yn ystod unrhyw gyfweliad cyn gwneud penderfyniad ynghylch rhoi tystysgrif gwblhau.

Os byddwn o'r farn bod endid wedi cymryd y camau a nodwyd yn yr hysbysiad, byddwn yn rhoi tystysgrif gwblhau i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r hysbysiad.

Os byddwn, ar ôl ystyried cais am dystysgrif gwblhau, o'r farn nad yw'r endid wedi cymryd y camau a nodwyd yn yr hysbysiad, byddwn yn ysgrifennu at yr endid i'w hysbysu o'n penderfyniad i beidio â rhoi tystysgrif gwblhau ac yn rhoi cyngor ar y camau pellach y mae'n ofynnol eu cymryd i gydymffurfio â'r hysbysiad.

Byddwn yn gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid rhoi tystysgrif gwblhau ai peidio o fewn 14 diwrnod i gael y cais.

Apeliadau

Mae gan yr endid yr hawl i apelio yn erbyn hysbysiad atal ac unrhyw benderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gwblhau.

Rhoi hysbysiad atal
Mae gan yr endid yr hawl i apelio i'r Uchel Lys (neu'r Siryf yn yr Alban) yn erbyn hysbysiad atal am y rhesymau canlynol:

- roedd yn seiliedig ar wall ffeithiol
- roedd yn anghywir yn gyfreithiol
- roedd y penderfyniad yn afresymol
- mae unrhyw gam penodedig yn yr hysbysiad yn afresymol, neu
- nid yw'r endid wedi cyflawni, neu ni fyddai'n debygol o gyflawni trosedd neu dorri'r rheolau, ac ni fyddai wedi gwneud hynny hyd yn oed os na roddwyd hysbysiad atal

Gwrthod rhoi tystysgrif gwblhau
Mae gan yr endid yr hawl i apelio i'r Uchel Lys (neu'r Siryf yn yr Alban) yn erbyn y penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gwblhau am y rhesymau canlynol:

- roedd yn seiliedig ar wall ffeithiol
- roedd yn anghywir yn gyfreithiol, neu
- roedd yn annheg neu'n afresymol.

Diffyg cydymffurfio â hysbysiad atal

Bydd unigolyn nad yw'n cydymffurfio â hysbysiad atal yn cyflawni trosedd o dan Atodlen 19C(14) i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000, sy'n arwain at gosb ariannol amrywiadwy neu erlyniad troseddol, yn amodol ar Gydsyniad Brenhinol.

Atodiad D - Ymgymeriadau gorfodi

Disgrifiad

Gall endid a reoleiddir gynnig llunio ymgymeriad gorfodi ar ei liwt ei hun er mwyn gwneud iawn am dorri'r gyfraith.

Rhaid i'r camau y gall endid a reoleiddir gynnig eu cymryd:

- sicrhau nad yw'r drosedd neu'r achos o dorri'r rheolau yn parhau neu'n digwydd eto
- sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei hadfer, i'r graddau y bo'n bosibl, i'r hyn a fyddai wedi bodoli os na fyddai'r drosedd neu'r achos o dorri'r rheolau wedi digwydd

Byddwn bob amser yn cymryd achos o gynnig y fath ymgymeriadau o ddifrif ac yn eu hystyried yn ofalus. Fodd bynnag, nid oes rhaid i ni dderbyn ymgymeriad gorfodi.

Caiff pob ymgymeriad gorfodi ei ystyried ar sail ei rinweddau ei hun.

Proses

Pan fydd gennym sail resymol dros gredu bod endid a reoleiddir wedi cyflawni trosedd, neu wedi torri rheol, gallwn dderbyn ymgymeriad gorfodi.

Rhaid i'r ymgymeriad nodi'r canlynol:

- y camau a gymerir gan yr endid i sicrhau nad yw'r drosedd neu'r achos o dorri'r rheolau yn parhau neu'n digwydd eto
- y camau a gymerir gan yr endid i sicrhau bod y sefyllfa yn cael ei hadfer, i'r graddau y bo'n bosibl, i'r hyn a fyddai wedi bodoli os na fyddai'r drosedd neu'r achos o dorri'r rheolau wedi digwydd
- y terfyn amser ar gyfer cydymffurfio

Terfynau amser

Rhaid cynnig ymgymeriad gorfodi yn ystod y gweithgarwch gorfodi cyn dyddiad yr hysbysiad terfynol.

Meini prawf i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid derbyn ymgymeriad gorfodi ai peidio

Wrth ystyried a ddylid derbyn ymgymeriad gorfodi ai peidio byddwn yn ystyried y ffactorau canlynol ymhlith rhai eraill:

- a gafodd y Comisiwn wybod am y mater yn wirfoddol
- difrifoldeb yr achos o ddiffyg cydymffurfio
- unrhyw anonestrwydd, twyll neu gamgynrychioliadau bwriadol, neu i'r gwrthwyneb gamddealltwriaeth wirioneddol o ran y gofynion statudol

- cost ymchwiliad llawn
- cofnod cydymffurfio'r endid
- a luniwyd ymgymeriadau gorfodi blaenorol gan yr endid ar gyfer yr un achos o ddiffyg cydymffurfio neu achos tebyg
- y tebygolrwydd o adfer sefyllfa'r rhai dan sylw
- y tebygolrwydd y gwnaiff yr ymgymeriad atal achosion tebyg o ddiffyg cydymffurfio yn y dyfodol
- yr angen i rwystro'r rhai a reoleiddir gennym rhag gwneud yr un peth
- i ba raddau y mae'r endid yn derbyn yr achos o ddiffyg cydymffurfio
- unrhyw gyngor a roddir i'r endid yn uniongyrchol ar y gofyniad/gofynion statudol perthnasol
- unrhyw ymddiheuriad neu edifarhau

Gwrthod derbyn ymgymeriad gorfodi

Pan fyddwn wedi gwrthod derbyn ymgymeriad gorfodi, gall endid wneud cynrychioliadau ynghylch pam na ddylai'r ymgymeriad gorfodi fod wedi cael ei wrthod.

Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cynrychioliadau ysgrifenedig yn yr hysbysiad.

Caiff unrhyw gynrychioliadau neu wrthwynebiadau eu hystyried gan un o uwch swyddogion y Comisiwn nad oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad ynghylch a ddylid derbyn yr ymgymeriad gorfodi ai peidio.

Byddwn yn ystyried unrhyw gynrychioliadau cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl eu cael.

Ar ôl ystyried cynrychioliadau, byddwn naill ai:

- yn cadarnhau'r penderfyniad i wrthod derbyn yr ymgymeriad gorfodi
- yn rhoi cyngor ar ba addasiadau y gellid eu gwneud i'r ymgymeriad gorfodi cyn ei ailgyflwyno, neu
- yn derbyn yr ymgymeriad gorfodi

Cydymffurfio ag ymgymeriad gorfodi

Pan fydd endid o'r farn ei fod wedi bodloni telerau'r ymgymeriad gorfodi, dylai ein hysbysu o hynny gan roi gwybodaeth ategol fel y gallwn ystyried rhoi tystysgrif gydymffurfio.

Gellir gwneud cais am dystysgrif gydymffurfio yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud cais ysgrifenedig yn yr ymgymeriad.

Byddwn yn ystyried unrhyw gais am dystysgrif gydymffurfio cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei gael.

Rhoi tystysgrif gydymffurfio

Ar ôl cael cais am dystysgrif gydymffurfio, byddwn yn ystyried y dystiolaeth a roddwyd ac unrhyw gynrychioliadau a wnaed yn ystod unrhyw gyfweliad cyn rhoi tystysgrif gydymffurfio.

Os byddwn o'r farn bod endid wedi bodloni telerau'r ymgymeriad gorfodi, byddwn yn rhoi tystysgrif gydymffurfio i gadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â thelerau'r ymgymeriad.

Gwrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio

Os byddwn, ar ôl ystyried cais am dystysgrif gydymffurfio, o'r farn nad yw endid wedi cydymffurfio â thelerau'r ymgymeriad gorfodi, byddwn yn ysgrifennu at yr endid i'w hysbysu o'n penderfyniad ac yn rhoi cyngor ar y camau pellach y mae'n ofynnol eu cymryd i gydymffurfio.

Ar ôl i'r camau pellach hyn gael eu cymryd, bydd modd i endid wneud cais arall am dystysgrif gydymffurfio.

Apelio yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi tystysgrif gydymffurfio

Pan fyddwn wedi gwrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio gall endid apelio yn erbyn y penderfyniad hwnnw yn ysgrifenedig. Rhoddir gwybodaeth am sut i wneud apêl ysgrifenedig yn yr ymgymeriad.

Caiff unrhyw apêl yn erbyn penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio ei hystyried gan un o uwch swyddogion y Comisiwn nad oedd yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad cychwynnol i gytuno â'r ymgymeriad gorfodi, na'r penderfyniad i wrthod rhoi tystysgrif gydymffurfio.

Byddwn yn ystyried unrhyw apêl cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl ei chael.

Ar ôl ystyried apêl, byddwn naill ai:

- yn cadarnhau y gwrthodir rhoi tystysgrif gydymffurfio ac yn ailddatgan, yn diwygio, neu'n nodi unrhyw gamau pellach y mae'n rhaid eu cymryd i gydymffurfio â'r ymgymeriad gorfodi, neu
- yn rhoi tystysgrif gydymffurfio

Achosion troseddol ac effaith cyflawni rhwymedigaeth

Os byddwn yn derbyn ymgymeriad gorfodi, ni all yr endid gael ei gollfarnu am drosedd na chael cosb ariannol benodedig na gofyniad dewisol am y weithred na'r hepgoriad y mae a wnelo'r ymgymeriad ag ef oni fydd yn methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad gorfodi.

Diffyg cydymffurfio

Bydd peidio â chydymffurfio ag ymgymeriad gorfodi yn golygu y gall un neu fwy o'r sancsiynau a oedd ar gael am yr achos gwreiddiol o dorri'r rheolau gael eu gosod.

Atodiad Dd - Polisi cyhoeddi a datgelu

Cyflwyno mater newydd

Anelwn at gwblhau'r asesiad cychwynnol o unrhyw fater a roddir ar ein system gwaith achos o fewn pum diwrnod gwaith. Ar y sail honno, ni fyddwn fel arfer yn hysbysu'r unigolyn na'r corff sy'n destun y gŵyn hyd nes ein bod wedi cwblhau'r asesiad cychwynnol.

Os oes angen mwy na phum diwrnod i gynnal yr asesiad cychwynnol byddwn yn hysbysu'r unigolyn dan sylw bod cwyn wedi cael ei gwneud a'n bod yn asesu'r mater.

Os byddwn yn cael ymholiad gan y cyfryngau yn ystod yr asesiad cychwynnol, oni fyddwn yn gallu cwblhau'r asesiad ar yr adeg honno, byddwn yn hysbysu'r sawl y mae a wnelo'r gŵyn ag ef ac yn cadarnhau y byddwn yn cysylltu â hwy ar ôl i'r asesiad cychwynnol gael ei gwblhau. Byddwn yn hysbysu'r cyfryngau bod honiad wedi dod i law.

Byddwn yn hysbysu'r achwynydd ein bod wedi cael yr honiad.

Cau mater ar ôl asesiad cychwynnol

Pan fyddwn wedi cwblhau ein hasesiad cychwynnol mewn perthynas â honiad a geir ac wedi penderfynu cau'r mater, byddwn yn hysbysu'r sawl sy'n destun yr honiad ein bod wedi ymchwilio i'r mater ac wedi casglu nad oes achos i'w ateb. Byddwn hefyd yn hysbysu'r achwynydd o'r canlyniad.

Achosion a adolygir

Byddwn yn hysbysu'r sawl sy'n destun y gŵyn a'r achwynydd fod yr achos yn cael ei adolygu ynghyd â'u hysbysu o ganlyniad yr adolygiad.

Ni fyddwn yn cymryd camau rhagweithiol i roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith bod achos yn cael ei adolygu. Byddwn yn cydnabod bod achos yn cael ei adolygu. Os bydd y cyfryngau yn ein holi amdano'n benodol, byddwn yn hysbysu'r sawl sy'n destun y gŵyn o hynny.

Fodd bynnag, os byddwn yn cael ymholiad penodol sy'n ymwneud ag achos a adolygir, a bod y mater wedi cael sylw yn y cyfryngau, byddwn yn cadarnhau a yw'r achos yn cael ei adolygu ai peidio.

Caiff ceisiadau am fanylion adolygiadau sy'n mynd rhagddynt o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 eu hystyried ar sail teilyngdod yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae eithriadau i ryddhau gwybodaeth am resymau 'ymchwilio' o fewn y derminoleg ac ystyr y ddeddfwriaeth, er enghraifft, yn debygol o fod yn gymwys.

Ymchwiliadau

Ar y dechrau

Pan fyddwn wedi penderfynu dechrau ymchwiliad, hysbysir y sawl sy'n destun y gŵyn a'r achwynydd a byddwn yn cyhoeddi'r datganiad i'r wasg ac yn rhoi gwybodaeth ar ein gwefan yn nodi ein bod yn cynnal ymchwiliad, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny (fel y posibilrwydd o gael effaith niweidiol ar yr ymchwiliad).

Yn ystod ymchwiliad

Ni fyddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod ymchwiliad heblaw am gadarnhau bod ymchwiliad yn mynd rhagddo.

Caiff ceisiadau am fanylion ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 eu hystyried ar sail teilyngdod yn unol â'r ddeddfwriaeth. Mae eithriadau i ryddhau gwybodaeth am resymau 'ymchwilio' o fewn y derminoleg ac ystyr y ddeddfwriaeth, er enghraifft, yn debygol o fod yn gymwys.

Cau mater

Ar ddiwedd ymchwiliad, neu ar ddiwedd adolygiad lle y gosodwyd sancsiwn, byddwn yn hysbysu'r sawl sy'n destun y gŵyn a'r achwynydd o ganlyniad yr ymchwiliad neu'r adolygiad ac yn rhoi adroddiad cryno iddynt a fydd yn cynnwys:

- enw'r sawl sy'n destun y gŵyn a'r achwynydd
- disgrifiad o'r honiad
- y materion a ystyriwyd
- ffeithiau'r mater
- unrhyw bwerau ymchwilio a ddefnyddiwyd
- y rhesymeg dros ein penderfyniad
- unrhyw gamau pellach a gymerwyd, gan gynnwys gosod sancsiwn neu gyfeirio am gyngor ac arweiniad

Os bydd ein hymchwiliad yn dod i'r casgliad na chadarnhawyd honiad, byddwn yn hysbysu'r sawl sy'n destun y gŵyn ein bod yn bwriadu cyhoeddi canlyniad yr ymchwiliad. Er y byddwn yn ystyried unrhyw gynrychioliadau a wneir gan y sawl dan sylw ynghylch cyhoeddi gwybodaeth, yn gyffredinol cyhoeddwn ddatganiad i'r wasg a rhown wybodaeth ar ein gwefan am ganlyniad yr ymchwiliad, gan roi dolen i'r adroddiad cryno.

Os bydd ein hymchwiliad yn dod i'r casgliad bod y sawl dan sylw wedi torri'r gyfraith, cyhoeddwn ddatganiad i'r wasg a rhown wybodaeth ar ein gwefan am ganlyniad yr ymchwiliad, gan gynnwys unrhyw gamau pellach, a rhown ddolen i'r adroddiad cryno.

Materion sydd wedi cau

Caiff ceisiadau am fanylion asesiadau cychwynnol, adolygiadau neu ymchwiliadau sydd wedi'u cau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 eu hystyried ar sail teilyngdod yn unol â'r ddeddfwriaeth. Caiff ffactorau fel treigl amser ac effaith rhyddhau gwybodaeth ar gyflawni dyletswyddau rheoleiddiwr yn effeithiol eu cynnwys wrth ystyried a yw eithriadau yn gymwys (er enghraifft, o ryddhau gwybodaeth am resymau 'ymchwilio' o fewn terminoleg ac ystyr y ddeddfwriaeth).

Cyfeirio achos i'r heddlu, cymryd camau erlyn neu gymryd camau ymgyfreitha sifil

Os cyfeirir achos at yr heddlu neu os ceir erlyniad, ymgyfreitha sifil (fel camau fforffedu) neu os rhoddir cosb sifil byddwn bob amser yn rhoi gwybod am hynny drwy gyhoeddi datganiad i'r wasg a rhoi gwybodaeth ar ein gwefan.

Adroddiad blynyddol

O dan baragraff 16 o Atodlen 1 a pharagraff 27 o Atodlen 2 i Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009 mae'n ofynnol i ni gyflwyno adroddiad blynyddol ar y defnydd o'n pwerau ymchwilio a sancsiynau sifil.

Bydd yr adroddiad blynyddol yn cynnwys y canlynol:

- **Adolygiadau (lle na fyddwn wedi defnyddio ein pwerau statudol**) - ystadegau ar nifer yr adolygiadau o achosion ac ymchwiliadau a gynhaliwyd gan gyfeirio at atodiad o adroddiadau cryno (rhoddir adroddiadau di-enw ar gyfer yr adolygiadau hynny lle na osodwyd sancsiwn)
- **Defnydd o bwerau ymchwilio statudol** - ystadegau ar nifer yr hysbysiadau datgelu a roddwyd (at ddibenion goruchwylio ac ymchwilio), yr eiddo a arolygwyd, y cyfweliadau a gynhaliwyd, a cheisiadau i'r Uchel Lys am orchmynion datgelu, a nifer y gorchmynion datgelu a wnaed, gan gyfeirio at atodiad o adroddiadau cryno (rhai cyflawn a di-enw)
- **Defnydd o sancsiynau sifil** - ystadegau (lle na chafodd y gosb ei diddymu yn dilyn apêl) ar nifer y cosbau ariannol penodedig, nifer y gofynion dewisol a gyflwynwyd a'u math, yr hysbysiadau atal a roddwyd, a'r ymgymeriadau gorfodi a dderbyniwyd, gan gyfeirio at atodiad o adroddiadau cryno
- **Proses gyfreithiol** - ystadegau ar gyfeirio achosion i'r heddlu, erlyniadau, neu'r defnydd o ymgyfreitha sifil (fel camau fforffedu)